



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Safonau ynghylch hybu'r Gymraeg

Strategaethau 5 mlynedd: canllaw arfer da i gynghorau sir a
chynghorau bwrdeistref sirol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol



Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Mae dwy egwyddor yn sail i'r gwaith:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru;
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Mae Adran 4 Mesur y Gymraeg yn rhoi'r grym i'r Comisiynydd wneud unrhyw beth sy'n briodol yn ei thyb hi er mwyn hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ymhlith pethau eraill, mae hyn yn cynnwys rhoi cyngor i unrhyw berson ac annog arfer da.

Mae'r Comisiynydd eisoes wedi cyhoeddi dogfennau cyngor ar faterion megis recriwtio, grantiau, technoleg a dylunio yn ogystal ag ystyried y Gymraeg yng nghyd-destun llesiant a dylid cyfeirio atynt am gymorth pellach.

Yn ogystal, mae Fframwaith Rheoleiddio'r Comisiynydd yn datgan mai ei blaenoriaethau rheoleiddio yw:

- gweithredu rhaglen reoleiddio ragataliol, sef gweithredu rhagweithiol i atal torri safon, er mwyn mesur perfformiad sefydliadau yn erbyn dyletswyddau iaith;
- rhoi barn annibynnol ar berfformiad sefydliadau ac adrodd ar brofiadau iaith defnyddwyr y Gymraeg.

Fel rhan o'r gwaith hwn, mae'r Comisiynydd yn cyhoeddi [Adroddiad Sicrwydd](#) yn flynyddol sy'n rhoi darlun cynhwysfawr dros amser o sut mae sefydliadau cyhoeddus yn defnyddio'r Gymraeg, ac yn rhoi cymorth i sefydliadau ddeall beth yw realiti profiad pobl sy'n dewis defnyddio'r Gymraeg.

Ar gyfer Adroddiad Sicrwydd 2016-17, [Hawliau'n Gwreiddio](#), cynhaliodd y Comisiynydd arolwg i gasglu gwybodaeth ynghylch y graddau y mae cynghorau sir ac awdurdodau parciau cenedlaethol yn llwyddo i gyflawni'r hyn sy'n ofynnol o dan safonau 145 a 146 (y safonau hybu). Mae'r ddogfen gyngor hon yn dilyn ymlaen o ganfyddiadau'r arolwg hwnnw.

Cynnwys

Cefndir	02
Crynodeb	04
Safonau Hybu	05
Cyflwyniad	08
Y cyd-destun cenedlaethol	12
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd	21
• Gweledigaeth a pherchnogaeth	23
• Cyfathrebu ac ymgynghori	28
• Partneriaethau	30
• Pennu targedau a mesur perfformiad	47
• Cyd-destun polisi ehangach	61
Atodiad	73

Crynodeb

Nod y ddogfen gyngor hon yw cynnig cefnogaeth i awdurdodau lleol a'r parciau cenedlaethol yng Nghymru wrth iddynt weithredu eu strategaethau 5 mlynedd i hybu'r Gymraeg yn unol â gofynion safonau 145 a 146 yn [Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 1\) 2015](#).

Rhoi'r strategaethau 5 mlynedd mewn cyd-destun deddfwriaeth a pholisi

Mae'r ddogfen gyngor yn amlinellu gofynion statudol y Safonau Hybu, y disgwyliadau sydd ar gyrff o ran cydymffurfio â'r safonau ynghyd â gwireddu camau i hybu'r Gymraeg yn eu hardaloedd drwy eu strategaethau.

Mae hi hefyd yn ystyried lle'r strategaethau 5 mlynedd ochr yn ochr â pholisi cenedlaethol o ran cynyddu nifer siaradwyr y Gymraeg a chynyddu defnydd o'r iaith ar draws Cymru, drwy osod y strategaethau 5 mlynedd yng nghyd-destun strategaeth Llywodraeth Cymru, [Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr](#).

Edrych ar hanfodion cyffredinol strategaeth ac arferion da

Yn dilyn dadansoddiad y Comisiynydd o gydymffurfiaeth a digonolrwydd y strategaethau 5 mlynedd yn Adroddiad Sicrwydd 2016-17, [Hawliau'n Gwreiddio](#), mae'r ddogfen yn ymhelaethu ar elfennau allweddol strategaeth 5 mlynedd gref, drwy ystyried arferion da o ran:

- Gweledigaeth a pherchnogaeth
- Cyfathrebu ac ymgynghori
- Partneriaethau
- Pennu targedau a mesur perfformiad
- Y cyd-destun polisi ehangach

Mae'r hanfodion a'r arferion a amlinellir yn y ddogfen yn cynnig arweiniad er mwyn cynorthwyo cyrff i:

- gydymffurfio'n llawn â safonau 145 a 146
- darparu sicrwydd yn fewnol ac yn allanol am berfformiad y strategaeth a lliniaru unrhyw risgiau a allai godi
- sicrhau bod eu llwyddiannau nhw a'u partneriaid yn cael eu cydnabod a'u cryfhau at y dyfodol
- gosod perfformiad y strategaeth mewn cyd-destun cenedlaethol o ran hybu'r Gymraeg
- gosod perfformiad y strategaeth mewn cyd-destun polisi ehangach

Rydym yn annog cyrff i ystyried cynnwys y ddogfen hon wrth adolygu cynnydd eu strategaethau, gyda'r bwriad o gryfhau neu ddatblygu blaenoriaethau, arferion neu gamau gweithredu dros oes y strategaeth ac wrth baratoi strategaeth ddilynol ar ddiwedd y 5 mlynedd gyntaf.

Safonau Hybu

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

- 1.1 Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 swydd Comisiynydd y Gymraeg a rhoddwyd statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru.
- 1.2 Mae Mesur y Gymraeg yn gosod fframwaith cyfreithiol er mwyn cyflwyno dyletswydd ar rai sefydliadau i gydymffurfio gydag un neu fwy o safonau'r Gymraeg.
- 1.3 Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o safonau'r Gymraeg yn golygu y dylai sefydliadau beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ynghyd â hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, sef ei gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015

- 1.4 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 sy'n pennu safonau mewn perthynas ag ymddygiad Gweinidogion Cymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Y Rheoliadau hyn sydd hefyd yn awdurdodi'r Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio, mewn perthynas â safonau a bennir gan y Rheoliadau, i'r cyrff hyn.
- 1.5 Pennwyd gofynion pellach i hybu'r Gymraeg ar gynghorau sir ac awdurdodau parciau cenedlaethol a hynny drwy bennu dosbarth ychwanegol o safonau ar eu cyfer, sef safonau hybu (nid yw'r safonau hyn yn benodol gymwys i Weinidogion Cymru).
- 1.6 Mae adran 31 Mesur y Gymraeg yn nodi mai ystyr 'safon hybu' yw safon (yn ymwneud ag unrhyw weithgaredd) y bwriedir iddi hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach.
- 1.7 Atodlen 4 y Rheoliadau sy'n rhestru'r safonau ynghylch corff yn hybu'r Gymraeg:

Safon 145

Rhaid ichi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill)—

- (a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd o dan sylw, a
- (b) datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw;

a rhaid ichi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu i ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni).

Safon 146

Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi strategaeth yn unol â safon 145 rhaid ichi—

- (a) asesu i ba raddau yr ydych wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddi, a
- (b) cyhoeddi'r asesiad ar eich gwefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys yr wybodaeth a ganlyn—
 - (i) nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal, ac oedran y siaradwyr hynny;
 - (ii) rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd gennych neu a ariannwyd gennych yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg.

Y gofynion statudol

1.8 Mae'r Safonau Hybu yn gosod dyletswydd ar sefydliadau i:

- lunio a chyhoeddi strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut maen nhw'n bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eu hardaloedd;
- cynnwys targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd;
- cynnwys datganiad sy'n esbonio sut mae'r sefydliad yn bwriadu cyrraedd y targed;
- ymhen pum mlynedd, asesu i ba raddau maen nhw wedi dilyn y strategaeth honno a chyrraedd y targed;
- cyhoeddi'r asesiad ar y wefan i ddangos nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal a'u hoedran;
- nodi yn yr asesiad, restr o'r gweithgareddau a drefnwyd neu a ariannwyd ganddynt i hybu defnyddio'r Gymraeg yn ystod y 5 mlynedd flaenorol.

1.9 Rhaid ystyried hefyd y gofynion sydd ar gyrff o dan y safonau sy'n ymdrin â Materion Atodol (safonau 173 ac 174) sy'n gofyn bod gyrff yn:

- sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau hybu y maent o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw ar gael ar y wefan ac ym mhob swyddfa sy'n agored i'r cyhoedd;
- darparu unrhyw wybodaeth y bydd y Comisiynydd yn gofyn amdani ynghylch cydymffurfio â'r safonau hybu.

1.10 Dylai gyrff felly sicrhau eu bod yn talu sylw manwl i'r ffyrdd maen nhw'n mesur cynnydd dros amser a'u gallu i asesu i ba raddau maen nhw wedi dilyn y strategaeth a chyrraedd y targed sydd wedi'i osod yn y strategaeth honno.

Cyflwyniad

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

- 2.1 Pwrpas y ddogfen gyngor hon yw cynnig cefnogaeth i awdurdodau lleol a'r parciau cenedlaethol yng Nghymru wrth iddynt wireddu eu strategaethau 5 mlynedd i hybu'r Gymraeg yn unol â gofynion safonau 145 a 146 yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.
- 2.2 Er bod geiriad y safonau eu hunain a'r gofynion ynddynt yn glir, mae'r nod a'r pwrpas sy'n sail iddynt yn eang ac uchelgeisiol.
- 2.3 Mae'r strategaethau 5 mlynedd yn bodoli mewn cyd-destun ehangach o gynllunio strategol ar gyfer y Gymraeg ar draws Cymru. Yn 2017 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, a hybu a hwyluso defnyddio'r iaith. Mae [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr](#), yn gosod dau darged hirdymor ac uchelgeisiol:
- Nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050
 - Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10% (2013-15) i 20% erbyn 2050.

- 2.4 Er bod awdurdodau lleol Cymru a'r tri pharc cenedlaethol wedi ymateb i ofynion Safonau'r Gymraeg o ran datblygiad eu strategaethau, a nodi eu harwyddocâd yng nghyd-destun strategaeth y Llywodraeth, roedd mwy nag un awdurdod lleol eisoes wedi mynd i'r afael â'r angen i gynllunio'n strategol i atal y dirywiad a welwyd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn eu hardaloedd yn dilyn Cyfrifiad 2011.

Y ddogfen gyngor a'i chynnwys

- 2.5 Mae'r ddogfen gyngor hon yn seiliedig ar waith ymchwil a chyfweliadau â swyddogion y cyrff perthnasol a gynhaliwyd rhwng mis Rhagfyr 2017 a mis Chwefror 2018. Aethpwyd ati i gasglu gwybodaeth am yr heriau sy'n wynebu cyrff wrth baratoi, gweithredu a monitro'r strategaethau ynghyd ag esiamplau o arferion da ac astudiaethau achos a fyddai o ddiddordeb ac o ddefnydd i gyd-swyddogion ar draws Cymru.
- 2.6 Y nod yw sicrhau dogfen ymarferol sy'n ymateb i bryderon neu anawsterau y gallai swyddogion eu hwynebu yn ystod oes y strategaeth, ac wrth baratoi am eu strategaethau dilynol. Mae'n cynnig pwyntiau i'w hystyried, enghreifftiau o arferion da trosglwyddadwy, a syniadau i'w datblygu.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

- 2.7 Nid pwrpas y ddogfen gyngor hon yw rhoi cyfarwyddyd i gyrff ailysgrifennu eu strategaethau o'r newydd. Mae'r ddogfen yn amlygu cyfleoedd posibl i gryfhau neu ddatblygu arferion, strwythurau neu gynlluniau gweithredu wrth i gyrff fynd ati i adolygu cynnydd o flwyddyn i flwyddyn.
- 2.8 Nid pwrpas y ddogfen hon chwaith yw dweud wrth gyrff pa gamau gweithredu y dylent eu cynnwys yn eu strategaethau, gan mai'r gyrff eu hunain sydd yn y sefyllfa orau, ar y cyd â'u partneriaid yn lleol, i benderfynu ar gyfeiriad strategol eu gwaith.
- 2.9 Bydd y ddogfen yn cyfeirio at y themâu a'r meysydd sy'n elfennau cydnabyddedig o gynllunio ieithyddol strategol ac yn amlygu enghreifftiau o sut mae targedau'n ymwneud â'r iaith yn cydblethu'n dda â'r cyd-destun ehangach.
- 2.10 Y gobaith yw y bydd y ddogfen hefyd yn amlygu cyfleoedd o'r newydd i gysylltu â phartneriaid, i adolygu cydberthynas â meysydd polisi eraill, i sicrhau datblygiad parhaus o ran cyfathrebu, monitro ac adolygu, ac i fesur y canlyniadau allweddol.
- 2.11 Cafodd swyddogion y gyrff eu holi ynglŷn â'r hyn yr hoffent ei weld yn cael ei ystyried yn y ddogfen gyngor. Roedd eu sylwadau yn cwmpasu:
- Eglurder ar y nodau cyffredinol a'r disgwyliadau sydd ar gyrff o dan y Safonau Hybu
 - Gosod y strategaeth mewn cyd-destun polisi ehangach
 - Sicrhau cyswllt a pherthynas gref â phartneriaid wrth wireddu'r strategaeth
 - Asesu a mesur cynnydd
 - Awgrymiadau ymarferol ac enghreifftiau o arferion da
- 2.12 Rhennir y ddogfen hon yn ôl y themâu perthnasol hyn ond mae hefyd yn edrych yn fanylach ar faterion eraill a allai fod o bwys i'r gyrff.
- 2.13 Ar gyfer Adroddiad Sicrwydd 2016-17, [Hawliau'n Gwreiddio](#), cynhaliodd y Comisiynydd arolwg o strategaethau 5 mlynedd gyrff gan farnu bod y strategaethau'n amrywio o ran:
- eu uchelgais i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg;
 - eu manylder er mwyn darparu tystiolaeth ar ddiwedd y cyfnod pum mlynedd er mwyn i sefydliadau allu hunanasesu eu llwyddiant.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

- 2.14 Mae'r ddogfen gyngor hon yn trafod y materion hyn er mwyn i gyrff allu adolygu eu harferion ochr yn ochr ag arfer da a gweithredu cadarn yn y maes ac ystyried sut y gallai fod yn berthnasol iddyn nhw.
- 2.15 Yn ogystal, nododd yr arolwg nifer o nodweddion da a ddaeth i'r amlwg a oedd yn rhoi sail gref i'r strategaethau allu gwreiddio ac anelu at y targedau a amlinellwyd ynddynt. Roedd y nodweddion hyn yn cynnwys:
- perchnogaeth ar ran y sefydliad cyfan
 - amlygu gweledigaeth glir i'r cyhoedd ac i staff a phartneriaid
 - pennu gwaelodlin fel sail i dargedau
 - strwythur atebolrwydd clir ar gyfer gweithredu ac asesu cynnydd
 - seilio targedau ar dystiolaeth feintiol ac ansoddol berthnasol
- 2.16 Gofynnwyd i bob un o'r gyrff am enghreifftiau o arferion da, astudiaethau achos addas ac unrhyw gamau roedden nhw wedi'u cymryd oedd â'r potensial i ddod â chanlyniadau cadarnhaol a chynnydd wrth wireddu'r strategaeth. Hoffai'r Comisiynydd ddiolch i bawb am eu hamser ac am gyfrannu at y ddogfen hon.

Pennu targed i gynyddu neu i gynnal niferoedd

- 2.17 Gyda tharged uchelgeisiol Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg, mae llawer iawn o'r gyrff yn cydnabod yr angen iddynt ystyried eu cyfraniad nhw i'r weledigaeth genedlaethol o ran nifer y siaradwyr Cymraeg yn lleol a'r cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith bob dydd.
- 2.18 Mae safon 145 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff nodi targed i gynyddu neu i gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg dros gyfnod o bum mlynedd.
- 2.19 Drwy nodi'r ddau amcan gwahanol, mae'r safon yn adlewyrchu'r ffaith bod yr amodau am dwf dros 5 mlynedd yn llai ffafriol mewn rhai ardaloedd o'u cymharu ag ardaloedd eraill.
- 2.20 Mae llawer o'r targedau a nodir yn y strategaethau 5 mlynedd i gynnal neu gynyddu niferoedd siaradwyr wedi'u seilio ar ddadansoddiad ac amcanestyniadau demograffig lleol ar gyfer y 5 mlynedd dan sylw:
- “** Roeddem o'r farn ei bod yn bwysig gwrthio ffiniau'r hyn fyddai'n digwydd yn naturiol, heb ymyrraeth o bosibl yn ardal Caerdydd... Dangosodd ein gwaith ymchwil felly bod gofyn i Gaerdydd sicrhau cynnydd uchelgeisiol o 15.9% yn nifer ein siaradwyr Cymraeg erbyn 2021 er mwyn cyfrannu at y targed cenedlaethol.
- Swyddog, Cyngor Caerdydd
- 2.21 Atal y trai wedyn yw nod nifer o gynghorau yn wyneb

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

y gostyngiad a welwyd yn nifer y siaradwyr Cymraeg mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, gyda sawl cyngor yn ei gweld hi'n nod mwy hirdymor na phum mlynedd:

“ Rydym wedi gosod targed o gynnydd o 0.5% ar gyfer y 5 mlynedd hon, gan anelu at atal y trai. Ein meddylfryd yw ystyried targed o dwf mwy hirdymor ac rydym yn trafod â'r Fforwm laith i drefnu targedau penodol ar y cyd ar gyfer 5, 10, 20 mlynedd.

Cyngor Sir Ddinbych

2.22 Mae cyrff eraill wedi nodi mai cynnal niferoedd y siaradwyr yw eu nod dros oes y strategaeth 5 mlynedd bresennol.

2.23 Y neges sy'n gyffredin ar draws llawer o'r awdurdodau lleol a'r parciau cenedlaethol yw eu bod yn ystyried mai gosod seiliau sy'n bwysig gyda'r strategaeth gyntaf er mwyn sicrhau twf cadarn dros y degawdau i ddod. Caiff y neges hon ei hadleisio gan Llywodraeth Cymru. Ar gyfer ei Strategaeth [Cymraeg 2050](#), mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi [Rhaglen Waith 2017-21](#). Yn y rhaglen hon, mae'r Llywodraeth yn cydnabod pwysigrwydd gosod seiliau yn y blynyddoedd cyntaf:

“ Bydd y blynyddoedd cychwynnol yn canolbwyntio ar osod seiliau cadarn. Mae hon yn broses araf, gyson, heb lwyddiant amlwg efallai. Eto i gyd, rydym yn ystyried bod gosod y seiliau nawr yn gwbl angenrheidiol er mwyn cynnal camau pellach i weithredu'r strategaeth.

Y Cyd-destun cenedlaethol

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

“Ar sail y dystiolaeth am nifer siaradwyr y Gymraeg a'r defnydd a wneir ohoni, mae'n debyg y gellid casglu mai aros yn ei hunfan a wnaeth y Gymraeg yn gyffredinol wrth edrych nôl dros y degawdau diwethaf...

Heb os, mae amodau digon ffafriol yn eu lle i'r Gymraeg ffynnu... Ond ymddengys nad yw'r amodau hynny ar eu pen eu hunain wedi bod yn ddigonol i sicrhau cynnydd dros y blynyddoedd diwethaf. Bydd angen gweledigaeth uchelgeisiol ac ymyrraeth gadarn i wyrdroi tueddiadau diweddar ac i sbauno twf dros y blynyddoedd nesaf.

Sefyllfa'r Iaith Gymraeg 2012–2015 Adroddiad 5-mlynedd Comisiynydd y Gymraeg

Poblogaeth Cymru – nodweddion a rhagolygon cyffredinol

- 3.1 Mae Cymru'n wynebu newidiadau sylfaenol dros y degawdau i ddod – o gynnydd mewn poblogaethau trefol, llai o blant yn cael eu geni a phoblogaeth yn heneiddio, i ddatblygiadau yn y modd y mae technoleg yn dod yn rhan o fywyd bob dydd.
- 3.2 Fel y mae data Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ei ddangos i ni, er y disgwylir i boblogaeth Cymru gynyddu 4.6% i 3.26 miliwn erbyn 2041, disgwylir i gyfanswm nifer y plant o dan 16 oed ostwng 1.5% rhwng 2016 a 2041. Ar ben hynny, disgwylir i nifer y bobl 65 oed a throsodd gynyddu 232,000 (37%) rhwng 2016 a 2041.
- 3.3 O safbwynt rhagolygon ardaloedd gwahanol, erbyn 2039 rhagwelir mai poblogaeth Caerdydd fydd yn cynyddu fwyaf, gyda chynnydd o 26%, gyda Wrecsam yn ail ar 10%. Rhagwelir y gostyngiad mwyaf ym mhoblogaeth Powys, sef gostyngiad o 8%. O ran poblogaethau ardaloedd eraill Cymru, rhagwelir cynnydd ym mhoblogaethau Gwynedd, Ceredigion, Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Chasnewydd; rhagwelir gostyngiad ym mhoblogaethau Ynys Môn a Blaenau Gwent, gyda phatrwm amrywiol o gynnydd a gostyngiadau graddol yng ngweddill Cymru.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

- 3.4 Yn ogystal â nodweddion y boblogaeth, mae ymchwili wedi dangos sut mae tueddiadau economaidd yn effeithio ar y Gymraeg, er enghraifft, diffyg cyfleoedd cyflogaeth a thai fforddiadwy. Nid oes modd anwybyddu pa mor hanfodol yw'r economi, yn lleol ac yn genedlaethol i greu amodau fel gall siaradwyr Cymraeg aros yn eu cymunedau, fel bod eu Cymraeg yn cael ei hystyried fel sgil gwerthfawr yn y byd gwaith ac fel bod potensial y Gymraeg i gyfrannu at dwf yr economi yn lleol yn cael ei ddatblygu a'i wireddu. Mae mentrau bach a mawr – o Ganolfan Soar ym Merthyr Tudful i Raglen Ynys Ynni ar Ynys Môn yn tanlinellu'r ffaith bod modd rhoi lle canolog i'r Gymraeg wrth ddatblygu seilwaith economaidd a chymdeithasol lleol.
- 3.5 Ar hyn o bryd felly, o ystyried y tueddiadau cyffredinol hyn a ffactorau fel niferoedd y bobl sy'n gadael eu cymunedau ac yn symud allan o Gymru (amcangyfrifir colled net o rhwng 1200 a 2200 o siaradwyr Cymraeg rhugl bob blwyddyn o ganlyniad i allfudo o Gymru) a'r mewnfudo sy'n digwydd ar draws Cymru (yn 2011, roedd 27% o boblogaeth Cymru wedi'u geni y tu allan i Gymru), mae'r pwysau ar y Gymraeg yn parhau er gwaethaf deddfwriaeth a pholisïau.

- 3.6 Mae hyn yn amlygu pa mor hanfodol yw'r cynllunio ieithyddol a strategol sy'n digwydd ar lefel genedlaethol a lleol. Mae ystod o fudiadau a sefydliadau yn cyfrannu mewn amryw ffyrdd at geisio sicrhau ffyniant y Gymraeg, ochr yn ochr â'r broses o weithredu deddfwriaeth a pholisïau.
- 3.7 Mae'r strategaethau 5 mlynedd yn allweddol i'r gwaith ar draws Cymru ac mae llawer ohonynt yn cydnabod ei bod hi'n hollbwysig eu bod yn mynd i'r afael â heriau lleol gydag anghenion penodol iawn o gymuned i gymuned, tra ar yr un pryd yn sicrhau eu bod yn rhan o'r darlun ehangach. Mae'r darlun ehangach hwnnw ar lefel genedlaethol, ac ar lefel ranbarthol. Yn ôl y Llywodraeth yn ei strategaeth ddiweddaraf, [Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr](#):

“ Rydym eisoes yn cynllunio ar lefel genedlaethol ac yn targedu ardaloedd lleol penodol. Yn fwy diweddar, mae awdurdodau lleol wedi datblygu strategaethau ar gyfer y Gymraeg mewn ymateb i ofynion a osodwyd arnynt gan Safonau'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae yna le i gynllunio'n ieithyddol ar lefel ranbarthol yn y dyfodol. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosib trefnu ymyriadau sydd wedi'u teilwra, er enghraifft drwy roi pwyslais ar y gweithle, gyrfaoedd a'r economi, hyfforddiant Cymraeg yn y gweithle a'r berthynas rhwng cymunedau Cymraeg a'r economi leol.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Y cyd-destun ieithyddol

- 3.8 Yn 2017 cyhoeddwyd [Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr](#), strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, ac i hybu a hwyluso defnyddio'r iaith. Mae'r strategaeth hon yn nodi bod angen i bob rhan o'r wlad rannu'r weledigaeth, a bod angen cydweithio er mwyn creu amodau ffafriol sy'n cefnogi'r broses o gaffael yr iaith a'r arfer o'i defnyddio. Mae [Rhaglen Waith 2017-2021](#) yn gofyn bod cyrff, drwy gyfrwng eu strategaethau 5 mlynedd, yn ategu ac yn cyfrannu at y gweithgareddau a amlinellir yn y rhaglen waith hon.
- 3.9 Y nod yn ôl y Llywodraeth yw:
- “sefydlu cynllunio ieithyddol a hybu'r iaith yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol fel elfennau hanfodol, gan ddeall dwyieithrwydd ac anghenion siaradwyr Cymraeg yn well a'u cefnogi.
- 3.10 Er mwyn gwneud hyn yn llwyddiannus, bydd yn bwysig deall y berthynas rhwng nifer o elfennau rhyngddibynnol, yn ogystal â'r modd y bydd y siaradwyr yn defnyddio'r iaith ac yn rhyngweithio ac yn ymwneud â'i gilydd. Bydd yn bwysig cadw mewn cof nad yw llwybr iaith unigolyn mewn bywyd yn un syth a rhesymegol, a bod dylanwadau amrywiol ar wahanol bwyntiau mewn bywyd yn gallu effeithio'n negyddol ar ddefnydd o'r iaith.

- 3.11 Fel yn strategaeth y Llywodraeth, y ddwy agwedd sy'n ganolbwynt i'r strategaethau 5 mlynedd yw nifer y bobl sy'n siarad yr iaith a'r defnydd a wneir ohoni, ac mae dwy brif ffynhonnell wedi bod yn sail i hyn.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Y Cyfrifiad

- 3.12 Y Cyfrifiad Cenedlaethol yw prif ffynhonnell ddata ynghylch nifer y bobl sy'n siarad yr iaith yng Nghymru, ac er bod y Cyfrifiad wedi dangos gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg o bron i filiwn yn 1911 i hanner miliwn yn 1981, gwelwyd rhai datblygiadau cadarnhaol rhwng 1991 a 2011.
- 3.13 Gwelwyd cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn 2001, a hyn yn atal y dirywiad cyson a welwyd yn y ganrif flaenorol. Er bod y ffigur o 19%, neu 562,000 o siaradwyr Cymraeg, yn 2011 yn ostyngiad ar ffigur 2001 roedd yn uwch nag ym 1991.
- 3.14 Wrth edrych ar ganlyniadau Cyfrifiad 2011, gwelir sawl datblygiad arwyddocaol. Yn ôl y Cyfrifiad, bellach mae canran sylweddol o bobl ifanc yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg: cofnodir bod 40% o blant 5-15 oed yn gallu siarad Cymraeg. Heb os mae'r gyfundrefn addysg yn gyfrifol am gynhyrchu mwy o siaradwyr Cymraeg ond mae'n anodd dadansoddi gwir lwyddiant addysg hyd yma i greu siaradwyr rhugl sy'n hyderus i ddefnyddio'r iaith bob dydd.
- 3.15 Gwelwyd cynnydd yng nghanran y siaradwyr Cymraeg sy'n gallu ysgrifennu a darllen Cymraeg. Mewn oes lle mae cyfathrebu ysgrifenedig drwy gyfryngau digidol yn weithgaredd dyddiol i lawer, gellir dadlau bod y cynnydd hwn hefyd yn ddatblygiad arwyddocaol.
- 3.16 Er hynny, gwelwyd tueddiadau oedd yn peri gofid yng Nghyfrifiad 2011 o ran nifer a chanran siaradwyr Cymraeg yn gyffredinol, gyda gostyngiad o tua 20,000 yn nifer y siaradwyr Cymraeg ers 2001, ynghyd â gostyngiad amlwg yn nifer y cymunedau lle mae dros 70% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg.
- 3.17 Yr arwyddion hyn o ddirywiad a wnaeth sbarduno sawl cyngor sir i fynd i'r afael â hyn yn strategol cyn dyfodiad y Safonau Hybu, er enghraifft, Cyngor Sir Gâr a gyhoeddodd [ymchwil ystadegol](#) cynhwysfawr ar sefyllfa'r Gymraeg yn y sir yn 2014 a arweiniodd at [gynllunio strategol](#) manwl ar gyfer yr iaith.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Yr Arolwg Defnydd Iaith

- 3.18 Elfen allweddol arall y strategaethau 5 mlynedd yw'r defnydd a wneir o'r iaith. Er mai'r Cyfrifiad yw'r brif ffynhonnell ystadegol a ddefnyddir, mae Arolwg Defnydd Iaith 2013-2015 yn cynnig dadansoddiad cynhwysfawr o'r modd y mae pobl yn defnyddio'r iaith. Dangosir bod agweddau cadarnhaol iawn tuag at y Gymraeg yng Nghymru a dymuniad clir ymysg siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg.
- 3.19 Mae data'r cyfrifiad yn darparu tystiolaeth ynghylch gallu yn y Gymraeg ar lefel gymunedol ond nid yw'n darparu tystiolaeth ynghylch y defnydd o'r iaith. Mae'r Arolwg Defnydd yn cynnig darlun o ddefnydd o'r Gymraeg gan siaradwyr Cymraeg mewn cyd-destunau gwahanol.
- 3.20 Dangosir bod 13% o bobl Cymru yn siarad Cymraeg bob dydd, sef canran sy'n uwch na chanran y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl.
- 3.21 Yn ôl yr Arolwg, roedd 24% o'r boblogaeth tair oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg. Roedd y ganran sydd yn gallu siarad Cymraeg yn gostwng gydag oedran; roedd ar ei uchaf ar gyfer y grŵp oedran 3 i 15 oed sef 41%, ac ar ei hisaf ar gyfer y grŵp oedran 45 i 64 oed sef 18%.
- 3.22 Mae'r ganran a nododd mai Cymraeg oedd iaith eu sgwrs ddiwethaf yn uwch yn yr ardaloedd hynny sydd â'r cyfraddau uchaf o siaradwyr Cymraeg yn byw ynddynt. Mae'n debyg mai'r rheswm dros hynny yw bod unigolion sy'n byw yn yr ardaloedd hynny yn fwy tebygol o ddod i gyswllt â siaradwyr Cymraeg eraill o'u cymharu â phobl mewn ardaloedd eraill o Gymru.
- 3.23 Mae'r Arolwg hefyd yn amlygu'r ffaith nad yw defnydd yn gyson a bod llawer o ffactorau yn dylanwadu ar arferion ieithyddol siaradwyr Cymraeg mewn sefyllfaoedd amrywiol fel yn y gweithle a'r gymuned. Ymhlith y ffactorau hyn, mae cyfleoedd, hwylustod, agweddau a hyder.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Ymchwil thematig ac astudiaethau lleol

3.24 Yn ei strategaeth, mae Llywodraeth Cymru yn nodi:

“ Mae yna botensial am dwf yn y niferoedd o siaradwyr Cymraeg, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny o Gymru sydd â dwysedd poblogaeth uchel ond canrannau is o siaradwyr Cymraeg. Ond mae angen sicrhau hefyd hyfywedd cymunedau Cymraeg fel lleoedd sy'n hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd.

3.25 Mae'r Cyfrifiad a'r Arolwg Defnydd yn tanlinellu'r angen am fesurau gwahanol ar gyfer twf yr iaith mewn ardaloedd gwahanol. Gwyddom fod nifer a chanran y boblogaeth sydd yn siarad Cymraeg yn amrywio o ardal i ardal, a fesul cymuned, ynghyd ag amrywiadau mawr mewn patrymau defnydd. Yn y cyd-destun hwnnw, mae'r strategaethau 5 mlynedd wedi deillio o amodau gwahanol iawn gan ymateb i anghenion gwahanol yn eu hardaloedd amrywiol. I nifer, mae'r darlun o ddefnydd yn hytrach na gallu yn hollbwysig, a'r angen i ganolbwyntio ar arferion defnydd a dilyniant ar draws meysydd profiad yn ffocws i'r strategaeth.

3.26 Nodwyd bod dirywiad yn niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg a ddaeth i'r amlwg yng Nghyfrifiad 2011 wedi bod yn sbardun i sawl awdurdod lleol a sefydliad partner fel y Mentrau Iaith adolygu sefyllfa'r Gymraeg yn eu hardaloedd.

3.27 Gwelwyd bod yr heriau o ran diogelu'r Gymraeg mewn cymunedau yn mynd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y cyrff unigol. Aethpwyd ati mewn sawl man i gryfhau partneriaethau, ac i gynnal gwaith ymchwil ystadegol manwl ac arolygon ansoddol i greu proffiliau iaith er mwyn cynllunio'n strategol a thargedu ymdrechion ar y cyd. Bu'r gwaith hwn yn sail i nifer o strategaethau 5 mlynedd gan ddarparu gwaelodlin gref i'r gwaith cynllunio.

3.28 Roedd y gwaith dadansoddol yn hollbwysig er mwyn bwrw goleuni ar y gwirionedd y tu ôl i rai o ffigurau'r Cyfrifiad. Er enghraifft, cymharu faint o blant a gafodd eu cofnodi fel siaradwyr Cymraeg gan eu rhieni yn y Cyfrifiad â niferoedd y plant sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg:

“ Mae sefyllfa'r Gymraeg yn y Gogledd Ddwyrain mewn gwirionedd yn waeth o lawer na'r hyn sy'n cael ei ddarlunio gan ystadegau'r Cyfrifiad... Mae'r gorliwio aruthrol hwn gan rieni di-Gymraeg o allu ieithyddol eu plant yn rhywbeth cyffredin iawn ar draws Cymru, yn enwedig yn siroedd y Gogledd Ddwyrain a'r De Ddwyrain.

Proffil Iaith Gogledd Ddwyrain Cymru, 2014

3.29 Er bod llawer o'r gwaith proffilio yn benodol i ardaloedd, mae'r ymchwil amrywiol yn ddefnyddiol iawn o ran ystyried methodoleg a dulliau gweithredu y gellid eu trosglwyddo neu eu hefelychu.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

3.30 Mae nifer o astudiaethau ymchwil wedi'u cynnal gan amryw sefydliadau, sy'n codi cwr y llen ar ddefnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau amrywiol, ac ymddygiad siaradwyr Cymraeg a'r rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu o ran defnyddio'r Gymraeg. Yn eu plith mae Astudiaeth Ymchwil Prifysgol Bangor ar ddefnyddio'r iaith yn y gymuned; ymchwil Cyngor ar Bopeth ar ddeall y defnydd a'r diffyg defnydd o wasanaethau Cymraeg; ac ymchwil Prifysgol Caerdydd ar drosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd.

3.31 Mae ymchwil arall, mwy diweddar ar hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith, newid ymddygiad, technoleg, a pholisi iaith ymddygiadol hefyd yn cynnig syniadau newydd ac arloesol i ni wrth geisio mynd i'r afael â phrofiadau blaenorol o ddiffyg cynnydd a methiant i wireddu twf gwirioneddol. Ymhlith y ffactorau allweddol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yw deall ymddygiad ei siaradwyr, a phensaerniaeth y dewisiadau sydd ar gael o ran defnyddio'r iaith.

- 3.32 O ystyried yr ymchwil sydd ar gael, cawn ein herio i ystyried y pwyntiau canlynol:
- Nad yw cynyddu nifer gweithgareddau o reidrwydd yn golygu cynyddu cyfleoedd;
 - Nad yw cynyddu cyfleoedd o reidrwydd yn golygu cynyddu defnydd;
 - Nad yw cynyddu defnydd o reidrwydd yn golygu newid ymddygiad yn barhaol;
 - Nad yw dewis sy'n ymddangos yn gyfartal, ar yr wyneb, bob tro yn gyfartal yn seicolegol;
 - Mae'r ffordd y mae'r dewis wedi'i gyflwyno i siaradwyr Cymraeg yn ddylanwad cryfach arnynt na'u hyder/diffyg hyder;
 - Mae angen llawer mwy o ymyraethau ymwybyddiaeth iaith cynhwysol i sicrhau newid digonol o ran ymddygiad ac agweddau.

3.33 Mae ffynonellau defnyddiol o wybodaeth feintiol ac ansoddol ar gael i swyddogion fel sail i weithgareddau cynllunio ieithyddol, a rhestrir rhai o'r prif gyfeiriadau fesul thema yn Atodiad 1.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Cerrig sylfaen strategaethau hybu

3.34 Er bod y strategaethau 5 mlynedd yn amrywio o ran blaenoriaethau strategol a strwythur thematig, maen nhw'n rhannu penawdau a themâu cyffredin. Mae [Cymraeg 2050](#) yn amlinellu'r berthynas rhwng y gwahanol feysydd thematig yn glir. Dyma hanfodion cynllunio ieithyddol a'r themâu hyn yw'r sail i strategaeth gref a chynhwysol.

Mae angen talu sylw i'r meysydd hyn i gyd er mwyn cyfrannu at y targedau craidd o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a sicrhau bod mwy o bobl yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd. Mae pob un yn gysylltiedig â'i gilydd ac mae nifer yn gorgyffwrdd ac yn pontio meysydd thematig.

Cynyddu nifer siaradwyr Cymraeg

- Trosglwyddo'r iaith yn y teulu
- Blynyddoedd cynnar
- Addysg statudol
- Addysg ôl-statudol
- Dysgu Cymraeg

Cynyddu defnydd o'r Gymraeg

- Y gweithle
- Gwasanaethau
- Defnydd cymdeithasol

Creu amodau ffafriol

- Cymuned a'r economi
- Diwylliant a'r cyfryngau
- Technoleg ddigidol
- Marchnata/ Hyrwyddo ymwybyddiaeth
- Cynllunio ieithyddol
- Seilwaith ac adnoddau
- Gwerthuso ac ymchwil

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

3.35 Rhaid cofio bod ffactorau eraill hefyd yn dylanwadu ar draws y themâu, er enghraifft:

- dilyniant – parhad profiadau a chyfleoedd o addysg gynradd i uwchradd; o addysg uwchradd i addysg bellach neu uwch; o addysg i fyd gwaith, hamdden, magu teuluoedd, yn ogystal â rhwng profiadau cymdeithasol a chymunedol a rhwng dysgu Cymraeg a dod yn rhugl.
- cyfle – mae ansawdd a hwylustod cyfleoedd yn gallu effeithio'n fawr ar ddefnydd a chynnal defnydd o'r iaith i'r dyfodol.
- agweddau – mae'n bwysig ystyried sut mae siaradwyr Cymraeg yn teimlo am eu gallu a'u defnydd o'r iaith a'r modd maen nhw'n gweithredu ar hynny neu ddim, a sut mae pobl ddi-Gymraeg yn teimlo am yr iaith a'r modd y caiff hyn ei gyfleu a'i ganfod.
- hyder – mae hyder siaradwyr Cymraeg yn gallu amrywio yn ôl sefyllfa (ee. ffurfiol ac anffurfiol) ac felly mae angen ystyried sut a ble i dargedu cefnogaeth yn effeithiol.

3.36 Mae llawer o'r meysydd strategol hyn hefyd yn pontio nifer o feysydd polisi, er enghraifft:

- addysg – mae polisi cenedlaethol a Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCAau) yr awdurdodau lleol, yn ogystal â mentrau amrywiol Cymraeg i Oedolion yn allweddol i nodau'r strategaethau 5 mlynedd.
- ieuenctid – mae pwysigrwydd ymestyn cyfleoedd y tu allan i fyd addysg a'r brif ffrwd gyda mentrau a mudiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol hefyd yn rhan ganolog o gynyddu defnydd y Gymraeg.
- llesiant – mae'r ffordd y mae gofyn i gyrff weithredu gofynion y Ddeddf Llesiant yn gydnaws â'r modd y mae gofyn i gyrff gynllunio a gweithredu'r strategaethau 5 mlynedd wrth fynd ati i gynllunio ar gyfer cymunedau cynaliadwy ac iach.
- yr economi – mae cyswllt amlwg o ran sicrhau ffyniant y Gymraeg gyda thargedau a chamau gweithredu ym maes datblygiadau tir, y farchnad lafur Gymraeg, y farchnad dai leol, polisiâu tai fforddiadwy, a phecynnau croeso i fewnfudwyr fel enghraifft.

3.37 Yn y bennod nesaf rydym yn edrych ar y strategaethau 5 mlynedd ac ar yr elfennau hanfodol sy'n angenrheidiol i greu sylfaen gref ar gyfer gweithredu.

Hanfodion strategaethau 5 mlynedd

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

4.1 Mae nifer o gynghorion i'w gael ar lunio strategaeth ar gyfer byd busnes neu faes polisi unigol, ond mae strategaethau hybu'r Gymraeg yn ymdrin â maes sy'n llawer mwy eang ac sy'n ymwneud â llawer iawn o nodau a blaenoriaethau strategol. Mae gofyn gweithredu strategaeth hybu'r Gymraeg drwy amrywiaeth eang o ddulliau a thargedau ac nid yw bob tro yn broses daclus sy'n dilyn llinell amser drefnus. Mae strategaethau 5 mlynedd yn ddibynnol ar nifer o bartneriaid ac yn agored i lawer o ffactorau allanol ac annisgwyl.

4.2 Wedi dweud hynny, mae cyngor ar lunio strategaethau o unrhyw fath yn cydnabod bod nifer o gerrig sylfaen cyffredin yn perthyn i strategaeth effeithiol. Tynnodd [Adroddiad Sicrwydd 2016-17](#) y Comisiynydd sylw at sawl un o'r agweddau hyn oedd i'w gweld yn y strategaethau 5 mlynedd i sicrhau sylfaen effeithiol:

Agwedd y sefydliad cyfan

- Gweledigaeth glir
- Arweinyddiaeth ymrwymedig
- Perthyn i'r cyd-destun ehangach

Cynhwysol

- Cyfathrebu ac ymgynghori effeithiol
- Sicrhau cefnogaeth rhanddeiliaid/partneriaid
- Sicrhau budd ehangach

Fframwaith effeithiol

- Gwaelodlin clir
- Targedau CAMPUS
- Sicrhau seilwaith cynhaliol dros oes y strategaeth

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Risgiau

- 4.3 Wrth holi'r cyrff eu hunain am yr heriau y bu'n rhaid iddyn nhw fod yn wylidwrus ohonynt a'u goresgyn wrth ddatblygu'r strategaethau, gwelwyd bod rhai themâu yn gyffredin i bawb. Efallai ei bod yn werth cofio rhai o'r risgiau hyn a chofio bod modd cymryd camau i'w lleddfu, boed hynny ar y dechrau neu yn ystod oes y strategaeth:
- Diffyg perchnogaeth – os nad yw partneriaid mewnol ac allanol yn teimlo budd a chyfrifoldeb, mae'r baich yn aros gyda grŵp bach o bobl neu unigolion.
 - Diffyg cyfathrebu – gall hyn arwain at ddiffyg dealltwriaeth pobl ynghylch pwysigrwydd eu cyfraniad.
 - Canolbwyntio ar y gwaith bob dydd – gyda llawer o weithgareddau, trefniadau a gwaith gweinyddu ynghlwm â chynllun gweithredu'r strategaeth, mae'n hawdd colli golwg ar y nod hirdymor.
 - Diffyg prif ffrydio – mae risg y bydd pobl yn colli ffocws ar gyflawni'r strategaeth os caiff y strategaeth ei hystyried fel rhywbeth ar wahân i weithgareddau canolog y corff a'r partneriaid.
 - Gormod i'w wneud – gall nodau a chymau gweithredu rhy niferus fod yn faich sy'n llethu swyddogion a phartneriaid.

- Sylw fesul blwyddyn – mae perygl i bethau lithro neu fynd yn amherthnasol os mai dim ond unwaith y flwyddyn y caiff y strategaeth ei hadolygu; rhaid iddi fod yn ddogfen fyw.
- Diffyg craffu – mae diffyg strwythur cadarn i olrhain ac adolygu cynnydd yn fygythiad i lwyddiant, yn yr un modd ag y mae tuedd i fesur yr hyn sy'n hawdd ei fesur yn hytrach na'r hyn sy'n bwysig.
- Diffyg atebolrwydd – mae atebolrwydd a phroffil uchel i'r strategaeth yn gymorth i sicrhau cynnydd. Rhaid i bob nod, dangosydd a tharged fod â pherchennog sy'n barod i weithredu arno.
- Diffyg grym – er bod cefnogaeth ar lefel uchel yn help i yrru'r strategaeth yn ei blaen, rhaid i swyddogion a phartneriaid deimlo eu bod wedi'u grymuso i wneud penderfyniadau, i weithredu ac i ddylanwadu ar bobl.

- 4.4 Yn Atodiad 2, gwelir rhestr bellach o risgiau a rhagdybiaethau a allai fod yn sail i asesu'r heriau a allai wynebu'r strategaethau 5 mlynedd.

Hanfodion strategaethau 5 mlynedd

Gweledigaeth a pherchnogaeth

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

4.5 Yn y bennod hon, rydym yn edrych yn fanylach ar y canlynol:

- Gweledigaeth a pherchnogaeth
- Cyfathrebu ac ymgynghori
- Partneriaethau
- Pennu targedau a mesur perfformiad
- Cyd-destun polisi ehangach

4.6 Un o nodau'r ddogfen gyngor hon yw tynnu sylw at enghreifftiau o arferion llwyddiannus a gweithredu effeithiol neu arloesol. Ar hyn o bryd, mae'n gynnar eto o ran cyflawni'r strategaethau a'r cynlluniau gweithredu, felly rydym yn amlygu arferion da, adeiladol neu ragweithiol o ran gosod seiliau'r strategaethau, ynghyd â chymau sy'n dangos dulliau gweithredu blaengar neu arloesol, sy'n cynnig gwerth da am arian neu sy'n rhai cynaliadwy dros yr hirdymor.

4.7 Rydym yn annog sefydliadau i ystyried a yw'r pwyntiau a godir a'r arferion a amlygir yn rhai y gellid eu haddasu neu eu mabwysiadu i hwyluso gweithredu eu strategaethau 5 mlynedd.

Gweledigaeth a pherchnogaeth



Ein gweledigaeth hirdymor ar gyfer y Strategaeth yw anelu at wneud y Gymraeg yn brif iaith y sir.

Cyngor Sir Gâr

4.8 Mae'r weledigaeth ar gyfer hybu'r Gymraeg yn amrywio o ardal i ardal, er enghraifft, o sicrhau lle cyfartal i'r Gymraeg mewn un sir i sicrhau mai'r Gymraeg yw'r brif iaith mewn sir arall. Mae hyn yn adlewyrchu natur ieithyddol ardaloedd gwahanol wrth reswm, ond mae datganiad clir o fwriad ar ddechrau strategaeth yn hollbwysig gan fod pob gweithred yn deillio o'r weledigaeth honno. Ni ddylid gorfod chwilio am nod a gweledigaeth ym mherfeddion y strategaeth. Dylid rhoi lle blaenllaw i'r weledigaeth i amlygu'r hyn sy'n sail i'r targedau.

4.9 Yn [Adroddiad Sicrwydd 2016-17](#), fe dynnodd y Comisiynydd sylw at y ffaith fod datganiad clir o weledigaeth yn gymorth nid yn unig i'r cyhoedd ddeall trywydd y corff, ond mae'n gymorth hefyd i holl staff y sefydliad a'r partneriaid sy'n gorfod gweithredu'r camau perthnasol.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Gweledigaeth – creu darlun o'r dyfodol

Wrth grisialu ei weledigaeth ar gyfer ei strategaeth 5 mlynedd, mae Cyngor Caerdydd wedi creu darlun o'r hyn y bydd llwyddiant y strategaeth yn ei olygu iddyn nhw:

“Ein gweledigaeth yw datblygu Caerdydd gwbl ddwyieithog. Caerdydd lle gall ein dinasyddion fyw, gweithio a chwarae yn ogystal â manteisio ar wasanaethau a chymorth yn Gymraeg neu Saesneg yn yr un modd. Prifddinas lle mae dwyieithrwydd yn cael ei hyrwyddo fel rhywbeth cwbl naturiol, a lle mae'r iaith Gymraeg yn cael ei diogelu a'i meithrin i genedlaethau'r dyfodol ei mwynhau a'i defnyddio.

Strategaeth Caerdydd Ddwieithog

Mae Cyngor Caerdydd hefyd yn dangos nad unwaith yn unig y mae modd hyrwyddo'r weledigaeth – mae wedi achub ar y cyfle fwy nag unwaith i godi proffil y strategaeth. Flwyddyn ar ôl ei chyhoeddi, fe ryddhaodd Arweinydd y Cyngor ddatganiad a gafodd sylw yn y wasg genedlaethol i dynnu sylw pellach at y weledigaeth, gan nodi:

“Mae'r Cyngor wedi gwneud camau mawr dros y blynyddoedd diwethaf ar y ffordd i greu prifddinas ddwyieithog.

“Yn amlwg mae'n rhaid i bawb yn y ddinas ddod gyda ni ar y daith hon, ac mae'n wych gweld busnesau a sefydliadau yn y ddinas yn cofleidio'r iaith, ac i weld y lluo o gyfleoedd sydd ar gael bellach i bobl ddysgu'r iaith.

Arweinydd Cyngor Caerdydd Huw Thomas,
1 Mawrth 2018

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

4.10 Mae'r enghraifft uchod yn tanlinellu pwysigrwydd cefnogaeth ar lefel uchel, gydag arweinydd neu aelod blaenllaw yn dal portffolio'r Gymraeg ac yn sicrhau proffil uchel i'r strategaeth ar yr agenda oddi mewn i'r sefydliad.

“ Gyda chefnogaeth ar y lefel uchaf yn y Cyngor, mae wedi helpu i ennill calonnau a chaniatáu màs critigol o bobl sy'n agored i gydweithio.

Swyddog, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

4.11 Mae sawl un o'r strategaethau hefyd yn edrych y tu hwnt i'r 5 mlynedd, gan fynegi gweledigaeth fwy hirdymor. Mewn sawl achos, cydnabyddir mai gosod y seiliau yw'r nod gyda'r strategaeth gyntaf ar gyfer cynnydd pellach yn y dyfodol:

“ Ein targed yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg... dros y pum mlynedd nesaf gyda'r bwriad o ystyried targed mwy hir dymor i gynyddu siaradwyr Cymraeg y sir dros y 15 mlynedd nesaf.

Strategaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

4.12 Mae sawl un hefyd yn cydnabod eu rhan yn y weledigaeth genedlaethol i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050:

“ Y Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2017-2022 gyntaf hon yw ymrwymiad a chyfraniad y Cyngor at weledigaeth Llywodraeth Cymru o 'creu un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050'.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, 2017

4.13 Ffactor arall a grybwyllir gan nifer o gyrff yw'r angen am weledigaeth eang i ymestyn cyrhaeddiad y Gymraeg i gynulleidfaoedd newydd.

Porth i'r Gymraeg Strategaeth i bawb – Cyngor Casnewydd

Cyflwyniad

Y cyd-destun cenedlaethol

Hanfodion strategaethau
5 mlynedd

Gweledigaeth a pherchnogaeth

Cyfathrebu ac ymgynghori

Partneriaethau

Pennu targedau a mesur
perfformiad

Cyd-destun polisi ehangach

Atodiad 1

Atodiad 2

Atodiad 3

Atodiad 4

Atodiad 5

Atodiad 6

“Yn ystod y broses o baratoi ac ymgynghori'n fewnol ar y strategaeth, sylweddolwyd bod angen mynd sllawer pellach nag ehangu profiadau a chyfleoedd siaradwyr Cymraeg.

Daeth i'r amlwg bod angen cydnabod hunaniaeth Gymreig holl ddinasyddion Casnewydd a'u hawliau nhw i ymwneud â'r iaith p'un ai yn siaradwyr Cymraeg neu beidio. Roedd angen cwrpasu holl bobl Casnewydd yn yr ymgyrch a chydabod profiadau pawb yn rhai dilys. Roedd angen osgoi sôn am 'ni' a 'nhw' wrth ymdrin â'r iaith a siaradwyr Cymraeg er mwyn creu cymuned sy'n cydlyn.

O edrych ar ymatebion yr ymgynghoriad allanol a'r sgysiau gydag Aelodau Etholedig a swyddogion mewnol, sylweddolwyd bod agweddau negyddol a oedd wedi achosi pryder i ni ar y cyfan yn dod o gonsyrn gwirioneddol. Roedd pobl yn gweld bwlch rhwng cymuned ddwyieithog y dyfodol gydag ysgolion a gweithleoedd yn llawn siaradwyr Cymraeg, a realiti'r sefyllfa bresennol. Roedden nhw'n llawn syniadau o ran sut i hwyluso'r broses a chynyddu'r cyfleoedd i ddysgu a siarad Cymraeg yng Nghasnewydd ar ôl hynny.

Fel nodwyd yn yr adroddiad i'r Cyngor awgrymodd un Aelod Etholedig "If Newport is the Gateway to Wales couldn't it also be the Gateway to Welsh?!"

“Roedd consyrn hefyd am allgau pobl leiafrifol ethnig yng Nghasnewydd a oedd heb gael cyfle ddysgu'r iaith neu wybod amdani. Ymgorfforwyd ystyriaethau cyfle cyfartal yn y Strategaeth ei hun.

Swyddog, Cyngor Casnewydd

“Rhaid i'r holl genedl fod yn rhan o'r drafodaeth – siaradwyr Cymraeg rhugl, siaradwyr Cymraeg sy'n gyndyn o ddefnyddio'r iaith, siaradwyr newydd sydd wedi dysgu'r iaith, neu bobl nad ydynt yn cyfrif eu hunain yn siaradwyr Cymraeg.

Strategaeth Cyngor Sir Ddinbych

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Perchnogaeth – gweledigaeth i'r sir gyfan

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi dweud bod nodau ei gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg yn y sir yn:

“fwriadol ymestynnol – ni fyddant yn cael eu cyflawni dros nos, y mae'n weledigaeth gennym i annog newid diwylliannol yn y ffordd y canfyddir dwy iaith Cymru yn y Fwrdeistref Sirol hon. Rydym am wneud gwahaniaeth.

Mae'r Cyngor wedi lansio ymgyrch i normaleiddio dwyieithrwydd a'i gwneud yn beth naturiol i bobl glywed a gweld y Gymraeg yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r Cyngor yn dymuno ehangu'r ymdeimlad o berchnogaeth dros yr iaith ymhlith poblogaeth y sir i gyd – siaradwyr Cymraeg, a'r di-Gymraeg yn enwedig.

“Mae yna ryw beth syml iawn y gallwn ei wneud ar unwaith, nad yw'n costio dim i ni... gallwn ddweud “bore da” a “shwmae” wrth ein cydweithwyr...Yna o dipyn i beth, os ydyn ni am ychwanegu “wela’ i di ‘fory” at hynna, yna gorau oll... does dim rhaid i ni gael unrhyw bwerau arbennig i'w defnyddio, does dim rhaid i ni fod yn gyfoethog i fod yn rhan ohoni a does dim rhaid i ni geisio cael caniatâd oddi wrth unrhyw un cyn i ni ei siarad hi - mae'n perthyn yn gyfartal i bob un ohonom... Rhowch gynnig arni nawr... Wrth ddweud “shwmae” wrth ein gilydd, rydym yn cyfoethogi ein hunaniaeth ein hunain...”

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Nod y Cyngor yw mabwysiadu, hyrwyddo ac ymgorffori diwylliant o ymfalchïo mewn dwyieithrwydd dan faner yr ymgyrch #Shwmaeronment, i annog pobl i ddefnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg gyda'i gilydd a theimlo perchnogaeth o'r Gymraeg.

Mae'r ymgyrch, er ei bod yn ddyddiau cynnar, yn mynd rhagddi yn fewnol yn y Cyngor gyda staff rheng flaen a nifer o'r Cynghorwyr yn dechrau pob cyfarchiad gyda “Shwmae”, “Bore da”. Nodwyd hefyd fod hyn wedi rhoi'r hyder i rai unigolion roi cynnig ar eiriau ac ymadroddion Cymraeg a ddysgont yn yr ysgol.

I ddatblygu'r diwylliant hwn ar draws y Fwrdeistref Sirol, mae ysgolion cynradd yr ardal wedi'u gwahodd i gymryd rhan mewn cystadleuaeth i ddylunio logo ar gyfer yr ymgyrch, ac mae ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd wedi dangos diddordeb.

Hanfodion strategaethau 5 mlynedd

Cyfathrebu ac ymgynghori

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

4.14 Mae gwireddu gweledigaeth ar y lefel hon yn anodd heb adnoddau a seilwaith digonol, ac mae nifer o awdurdodau lleol wedi adnabod yr angen i greu seilwaith llywodraethu cryf. Ar ben hynny, ceir enghreifftiau o gyrff yn penodi swyddogion iaith a thiworiaid Cymraeg yn fewnol, wrth ymateb i'r gwaith sydd ynghlwm â'r strategaeth yn ogystal â Safonau'r Gymraeg yn gyffredinol.

“Gan mai gweithlu oedd un o'r prif feysydd cynnydd posibl i'r Cyngor, ac er mwyn cynyddu hyder siaradwyr, annog siaradwyr newydd a thargedu'r niferoedd cudd sy'n bodoli ym mhob gweithle a chymuned, penderfynwyd penodi tiwtor cymwysedig i weithio gyda staff wrth eu gwaith. Mae'r tiwtor yn mynd at yr unigolion ac yn teilwra hyfforddiant penodol ar eu cyfer, mae hyn yn holl bwysig.

Swyddog, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Cyfathrebu ac ymgynghori

“Roedd ymgynghori â siaradwyr Cymraeg yr ardal yn bwysig i ni, ac roedden nhw'n gwerthfawrogi'r cyfle i roi mewnbwn – dyma'r tro cyntaf i rai ohonyn nhw siarad â rhywun o'r Cyngor! Mae'n bwysig gwrandao arnyn nhw, a nid ysgrifennu strategaeth amdany'n nhw.

Swyddog, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

4.15 Mae dulliau cyfathrebu ac ymgynghori cyrff o ran eu strategaethau 5 mlynedd wedi amrywio o fod yn ymgynghoriadau mewnol i ymgynghoriadau sy'n cwmpasu partneriaid a'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae'r cyrff i gyd yn cydnabod pwysigrwydd ymgynghori a chyfathrebu'r weledigaeth.

4.16 Ymhlith rhai o brif egwyddorion cyfathrebu ac ymgynghori yn y sector cyhoeddus, mae sicrhau:

- Pwrpas amlwg
- Cyfathrebu clir a chryno
- Gwybodaeth ddigonol a pherthnasol
- Dulliau amrywiol o gysylltu â phobl

4.17 Mae'n bwysig sicrhau proses glir o gyfathrebu er mwyn cyfleu'r weledigaeth yn ystyrllon ac yn berthnasol. Dylid osgoi sefyllfa lle mae angen i bobl ddehongli negeseuon a dod i'w casgliadau eu hunain am nod y strategaeth.

4.18 Mae'n gyfle i gyfathrebu a hyrwyddo gwaith y sefydliad a'i bartneriaid ac i ddeall yr heriau sy'n wynebu'r strategaeth.

Rhaglen ymgynghori fewnol ac allanol Cyngor Caerdydd

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Ymgynghori mewnol

“Cynhaliwyd y broses ymgynghori fewnol mewn ysbryd agored ac onest er mwyn derbyn adborth a syniadau.

Swyddog, Cyngor Caerdydd

Roedd gwaith paratoi ac ymgynghori effeithiol yn hollbwysig i greu strategaeth gref gyda pherchnogaeth ar draws y Cyngor a'r partneriaid.

Y cam cyntaf oedd ymgynghori'n fewnol gan ddechrau gydag arolwg ar-lein a ddenodd 40 o ymatebion o wahanol adrannau'r Cyngor. Roedd y sylwadau wedyn yn bwydo i mewn i'r blaenoriaethau ac amcanion drafft. Drwy gydol y broses roedd swyddogion yn adrodd yn ôl i Weithgor Aelodau Caerdydd Ddwieithog a'r Uwch Dîm Rheoli.

Yn dilyn hyn, cynhaliwyd sesiwn drafod gan ddod a swyddogion polisi, penaethiaid gwasanaeth a phencampwyr y Gymraeg at ei gilydd i drafod y strategaeth a'r amcanion drafft, a defnyddiwyd y sylwadau a'r adborth o'r sesiwn yma i baratoi'r strategaeth ar gyfer sesiwn ymgynghori allanol.

“Er ei fod yn gryn dipyn o waith, roedd budd mawr mewn ymgynghori'n drwyadl yn fewnol, mae adrannau fel Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweld gwerth y strategaeth ac yn teimlo perchnogaeth ohoni.

Swyddog, Cyngor Caerdydd

Y prif themâu a gafodd eu hamlygu yn ystod y gweithgaredd ymgynghori mewnol oedd yr angen i hyrwyddo manteision addysg Gymraeg, cynyddu cyfleoedd allgyrsiol i blant ddefnyddio'r iaith, cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Cyngor, ac i weithio â phartneriaid i gynyddu defnydd y Gymraeg mewn digwyddiadau ac yn y sector breifat.

Ymgynghori allanol

Cynhaliwyd ymgynghoriad â'r cyhoedd ar ffurf holiadur gyda nifer o gwestiynau caeedig fel bod gan swyddogion ddata clir i'w gyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor ar yr ymatebion.

Hefyd, fel rhan o'r ymgynghoriad, cynhaliwyd Cynhadledd Caerdydd Ddwieithog yn yr hydref ar gyfer partneriaid a rhanddeiliaid i drafod y drafft yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus. Roedd yna ysbryd cydweithio a chyd-ysbrydoli yn perthyn i'r digwyddiad gyda siaradwyr gwadd fel Ian Gwyn Hughes o Gymdeithas Bêl-droed Cymru yn annerch. Daeth cynrychiolwyr o tua 30 o bartneriaid ynghyd ar y diwrnod.

O'r digwyddiad hwn, fe ddeilliodd syniadau ac amcanion pellach ar gyfer y Cyngor a'r partneriaid er mwyn gwireddu uchelgais y strategaeth.

Hanfodion strategaethau 5 mlynedd

Partneriaethau

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

4.19 Mae nifer o gyrff wedi gweld budd yn y broses gyfathrebu ac ymgynghori ei hun i ehangu'r drafodaeth ac i hyrwyddo'r weledigaeth:

“ Mae'r strategaeth wedi bod yn gyfle i drafod y Gymraeg fel rhywbeth cadarnhaol, yn hytrach nag yng nghyd-destun cydymffurfiaeth... Trafodaeth gadarnhaol yw hi, yn hytrach na gofyn 'ydych chi'n cydymffurfio â'r safon hon a hon yn eich adran chi'- y cwestiwn nawr yw 'Sut allwn ni wneud gwahaniaeth?' Swyddog, Cyngor Sir Powys

Partneriaethau

“ Er mwyn cyflawni nodau ac amcanion y strategaeth, mae'n allweddol ein bod yn gweithio'n agos â'n partneriaid presennol a phartneriaid newydd ar draws y sir. Trwy weithio ar y cyd, byddwn mewn sefyllfa well er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r weledigaeth.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

4.20 Wrth ystyried partneriaethau yng nghyd-destun y strategaethau 5 mlynedd, nod y prif bartneriaid yw gwasanaethu cymunedau o siaradwyr Cymraeg, dysgwyr a darpar siaradwyr Cymraeg yn eu gwahanol ffyrdd. Nodwedd amlwg ym mwyafrif helaeth y strategaethau 5 mlynedd yw cydnabyddiaeth o bwysigrwydd creu cysylltiadau a phartneriaethau cryf boed yn rhai mewnol neu allanol.


4.21 Mae ymchwil ar bartneriaethau a chyd-gynhyrchu yn y sector cyhoeddus yn cynnig pedair egwyddor arweiniol i ni

- Mae gan bawb rywbeth i'w gyfrannu, er bod adnoddau rhai yn fwy nag eraill.
- Mae perthynas ddwy ffordd yn hanfodol.
- Mae rhwydweithiau yn bwysig i sicrhau newid.
- Mae cyfraniad pawb yn bwysig, nid cyllid yw'r ateb bob tro.

4.22 Mae'n glir o'r strategaethau 5 mlynedd fod amrywiaeth o bartneriaid mewnol ac allanol gan bob un o'r gyrff, ac mae'n hollbwysig adnabod, datblygu a chynnal y partneriaethau hyn i sicrhau llwyddiant y strategaeth yn y pen draw.


4.23 Mae gwaith cynllunio a datblygu prosiect neu strategaeth o unrhyw fath yn gofyn am adnabod a dadansoddi'r partneriaid neu'r rhanddeiliaid perthnasol ('stakeholder analysis'). Mae'n bwysig ar sawl lefel:

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6



Gosod y seiliau

Mae adnabod a deall pwy yw'ch rhanddeiliaid a beth yw eu blaenoriaethau strategol nhw, yn golygu y gallwch gyfeirio eich gwaith a'ch negeseuon yn strategol er mwyn cyfathrebu ac ymgynghori'n effeithiol.



Mewnbwn a chefnogaeth

Gyda chyfathrebu da ynghylch nodau'r strategaeth, gallwch ddefnyddio mewnbwn eich rhanddeiliaid pwysicaf i adnabod blaenoriaethau strategol ac i lunio'r camau gweithredu perthnasol ar y cyd. Byddant wedyn yn ymrwymedig ac yn barod i'ch cefnogi gyda'r strategaeth.



Sicrhau dealltwriaeth

Drwy gyfathrebu yn gynnar ac yn rheolaidd gallwch sicrhau bod eich rhanddeiliaid yn deall nod a buddiannau'r strategaeth i bawb a'ch bod chi yn deall yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw.



Rhannu baich

Mae cefnogaeth eich rhanddeiliaid allweddol yn golygu y bydd pawb yn gweithio tuag at yr un nod ac y byddwch yn dod o hyd i gyfleoedd i gydweithio a rhannu adnoddau nad oedd yn bodoli o'r blaen, gan osgoi dyblygu ymdrechion.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

4.24 Mae nifer o'r cyrff sydd wedi mynd ati i ddadansoddi eu rhanddeiliaid wedi dilyn y pedwar cam canlynol:

Adnabod – mae'n bwysig rhestru pawb perthnasol. Gallant fod yn adrannau neu'n unigolion gwahanol oddi mewn i'r Cyngor ei hun, yn gyrrff ac yn fudiadau cenedlaethol neu gymunedol.

Blaenoriaethu – mae'n bwysig gwneud gwaith mapio i ganfod pwy sy'n allweddol i gyflawni nodau'r strategaeth a chefnogaeth pwy sydd angen ei sicrhau.

Gwrando a deall – mae'n bwysig deall barn a chymhelliant eich partneriaid, natur eu dylanwad, a'u hanghenion er mwyn sicrhau budd ar y cyd. Mae'n hollbwysig deall cyd-destun deddfwriaethol a rheoleiddiol eich partneriaid hefyd.

Cyfathrebu – mae'n bwysig cynnwys rhanddeiliaid ar bob cam o'r broses, o'r ymgynghori cychwynnol i weithredu'r strategaeth ac wrth fonitro ac adrodd ar gynnydd.

4.25 Nid ymarfer i'w gynnal unwaith ar y dechrau yw hwn – mae mantais amlwg mewn cynnal gwaith dadansoddi rhanddeiliaid a phartneriaid yn rheolaidd yn ystod oes y strategaeth gan fod blaenoriaethau strategol yn gallu newid, gall cyllidebau ddod i ben, a gall partneriaid neu brosiectau newydd ddod i'r amlwg.

4.26 Mae'r esiampl isod yn dangos sut aeth un Cyngor ati i baratoi'r ffordd at gynllunio'n strategol ar gyfer y Gymraeg mewn cydweithrediad â phartneriaid o bob math.

Sefydlu partneriaethau – gwaith paratoi

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Cynhadledd Caerdydd Ddwieithog 2014

Ym mis Mawrth 2014, trefnodd Cyngor Dinas Caerdydd gynhadledd 'Caerdydd Ddwieithog' yn Neuadd y Ddinas gan wahodd dros 40 o sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

Diben y digwyddiad oedd ymgynghori â phartneriaid, rhanddeiliaid a chyrrff allweddol eraill er mwyn adnabod blaenoriaethau strategol gyda'r nod o warchod a meithrin yr iaith yng Nghaerdydd. Roedd y Cyngor hefyd eisiau clywed syniadau a barn unigolion oedd yn byw neu'n gweithio yn y ddinas o ran sut gellid gwireddu'r weledigaeth o gynyddu dwieithrwydd yn y ddinas trwy weithio'n agosach gyda sefydliadau eraill y ddinas. Bu yno nifer o siaradwyr gwadd, gan gynnwys y Prif Weinidog, yn ogystal â pherfformiadau a sesiynau grŵp yn ystod y dydd yn seiliedig ar chwe thema Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru. Y bwriad oedd sicrhau bod y cynllun gweithredu a gafodd ei lunio ar y cyd â sefydliadau eraill yn hwyluso gofynion y strategaeth genedlaethol yng Nghaerdydd.

Sefydlodd y gynhadledd hon fod angen datblygu canolfan fyddai'n arddangos y Gymraeg a diwylliant Cymraeg yn ogystal â darparu cyfleoedd i bobl gymdeithasu, gymryd rhan, ac i fynegi eu hunain mewn awyrgylch dwieithog a chafwyd cefnogaeth eang i'r syniad hwn ymhlith y cynadleddwyr.

O ganlyniad agorwyd Yr Hen Lyfrgell, canolfan Gymraeg Caerdydd ym mis Chwefror 2016 drwy grant cyfalaf gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â phartneriaid, gan gynnwys Amgueddfa Stori Caerdydd. Wedi ei leoli yn yr Hen Lyfrgell, mae'r ganolfan yn cynnig canolbwynt i ymwelwyr o bob oedran er mwyn dathlu a hyrwyddo'r Gymraeg.

Fe sefydlodd y digwyddiad berthnasau strategol y gallai'r Cyngor droi atynt wrth ddatblygu'r strategaeth 5 mlynedd.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

- 4.27 Ar y dudalen hon, rhestrir enghreifftiau o bartneriaid allanol sy'n ymwneud â hyrwyddo'r Gymraeg yn rhinwedd eu gwaith a'u gweithgareddau. Mae rhai ohonynt yn bartneriaid amlwg i nifer o strategaethau 5 mlynedd ac wedi'u crybwyll mewn cynlluniau gweithredu.
- 4.28 Nid yw'n rhestr gynhwysfawr ac nid yw'n awgrymu y dylid cynnwys pawb fel partneriaid gweithredol, gan fod rhanddeiliaid yn wahanol o un ardal i'r llall ac mae eu dylanwad a'u diddordeb yn amrywio. Serch hynny, mae'n tanlinellu pwysigrwydd gwaith mapio a dadansoddi rheolaidd, ynghyd â phwysigrwydd cyfathrebu ac ymgynghori. Bydd gan eich partneriaid eu rhanddeiliaid hwythau i'w hystyried wrth gwrs.
- 4.29 Yn ogystal â phartneriaid mewnol ac allanol, mae nifer o swyddogion cynghorau lleol ac awdurdodau parciau yn manteisio ar rwydweithiau (ffurfiol ac anffurfiol) trawsffiniol o swyddogion iaith o gyrff ar draws y rhanbarth ac ar draws sectorau. Mae'r rhwydweithiau hyn yn caniatáu i swyddogion rannu arferion da ac ymdrechion er mwyn lleihau faint o ddyblygu gwaith sy'n gallu digwydd.

Rhestr enghreifftiol o randdeiliaid

- Addysg a Dysgu Gydol Oes
- Amgueddfa Cymru
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Bwrdd Iechyd Lleol
- Cadw
- Canolfannau Cymraeg (Hen Lyfrgell/Atom/Soar ac ati)
- Capeli ac Eglwysi
- Clybiau hamdden a chwaraeon lleol
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Colegau Addysg Bellach
- Colegau Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Consortia Addysg Rhanbarthol
- Cylchoedd Ti a Fi
- Cymdeithas Addysg y Gweithwyr
- Cymdeithas yr Iaith
- Cymdeithasau Gwirfoddol Sirol
- Cymraeg i Blant
- Chwaraeon Cymru
- Dyfodol i'r Iaith
- Eisteddfod Genedlaethol Cymru
- Elusennau lleol
- Ffermwyr Ifanc
- Fforymau busnes lleol
- Fforymau iaith sirol
- Gwasanaethau Tân ac Achub
- Gyrfa Cymru
- Llenyddiaeth Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Menter a Busnes
- Mentrau iaith Cymru
- Merched y Wawr/Clwb Gwawr
- Mudiad Meithrin
- Papurau bro
- Prifysgolion
- RhAG
- S4C/BBC/Gorsafoedd radio a theledu lleol
- Theatrau lleol
- Un Llais Cymru/Cynghorau Tref a Chymuned
- Urdd Gobaith Cymru
- Y Fenter iaith leol
- Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- Yr Heddlu
- Ysgolion cynradd ac uwchradd

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

- 4.30 Er bod y Parciau hefyd yn dod o dan y Safonau Hybu ac wedi llunio eu strategaethau 5 mlynedd eu hunain, nid pob sir sydd yn ffodus i gael Parc Cenedlaethol oddi mewn i'w ffiniau. Mae hyn felly'n gyfle pellach i feithrin partneriaeth strategol ddwy ffordd wrth ehangu gweithgareddau a mentrau i hyrwyddo'r Gymraeg.

“ Mae'r Parciau yn deall y gofynion statudol a gweithdrefnau llywodraeth leol ac rydym yn gweithio tuag at yr un nod gyda'n strategaethau hybu. Gall awdurdodau lleol fanteisio ar y bartneriaeth barod hon er mwyn sicrhau bod y strategaethau yn cydblethu, cryfhau ac ategu ei gilydd.

Swyddog, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro

“ Fel Awdurdod Parc Cenedlaethol gyda chylch gwaith penodol, rydym yn annhebygol o gael dylanwad uniongyrchol mewn rhai meysydd pwysig... Fodd bynnag trwy weithio yn agos gyda sefydliadau partner yn y sector gyhoeddus, gallwn sicrhau ein bod yn rhannu adnoddau ac yn rhoi cefnogaeth ble fo'i angen er mwyn cael yr effaith fwyaf trawiadol.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Mentrau Iaith Cymru

“ Y Mentrau Iaith yw'r ffordd mae cymunedau lleol Cymru yn gweithredu er budd y Gymraeg. Mae wedi bod yn fodel llwyddiannus dros y blynyddoedd ac yn cael ei gydnabod fel ffordd effeithiol o ddatblygu cymunedol sydd yn gwneud gwahaniaeth yn lleol.

Mentrau Iaith Cymru

- 4.31 Nod y 23 Menter Iaith yw hybu a hyrwyddo'r Gymraeg ar draws Cymru. Maen nhw wedi datblygu mewn gwahanol gyd-destunau ieithyddol a daearyddol, yn bennaf ar lefel sirol neu rannol sirol. Cryfder y Mentrau yw adnabyddiaeth dda o'u cymunedau ac anghenion eu cymunedau, ac maen nhw'n meddu ar greadigrwydd a hyblygrwydd o ran mynd i'r afael â'r anghenion hynny.

- 4.32 Gwelwyd llawer o'r Mentrau yn ymateb yn arloesol i anghenion lleol drwy brosiectau â phartneriaid ar draws sectorau gwahanol ac ar draws meysydd o bob math, ond mae eu hadnoddau a'u dylanwad yn amrywio. Fel nodwyd yn astudiaeth ymchwil Prifysgol Caerdydd yn 2014, *Adolygiad o waith y mentrau iaith*, “nid yw'n deg gofyn iddynt gyflawni'r holl swyddogaethau y mae disgwyl cyffredinol iddynt eu cyflawni. Ni allant fod yn bopeth ieithyddol i bawb”.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

- 4.33 Serch hynny, mae'r strategaethau 5 mlynedd yn rhoi cyfle i bartneriaid a chyrff droi at y Mentrau o'r newydd i drafod a chyd-gynllunio'n strategol yn eu hardaloedd ac ar draws sawl maes. Mewn rhai ardaloedd bu'r Fenter Iaith leol yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o lunio'r strategaeth 5 mlynedd gan helpu i amlygu cyfleoedd newydd.

Creu cysylltiadau newydd

“ Mae llunio'r strategaeth hybu ar y cyd â Chyngor Caerffili wedi arwain at gyfleoedd newydd i ddatblygu partneriaethau gydag adrannau amrywiol yn y Cyngor. Un enghraifft yw'r berthynas rydym wedi'i datblygu gyda'r Adran Cefn Gwlad a Pharciau. Mae'r bartneriaeth hon wedi arwain at gynllunio a darparu gweithgareddau i blant a theuluoedd trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Menter Caerffili yn darparu staff ac yn arwain ar y gwaith marchnata a'r Adran Cefn Gwlad a Pharciau yn darparu adnoddau a chefnogaeth marchnata. Prif Swyddog Menter Iaith Caerffili

- 4.34 Mewn ymateb i darged Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr, meddai Mentrau Iaith Cymru:

“ Rydym yn gweld rôl y Mentrau Iaith fel un hanfodol er mwyn cyrraedd y targed hwn, wrth annog pobl i ddysgu a defnyddio'r iaith. Trwy hwyluso cyfleoedd anffurfiol i bobl gymdeithasu a mwynhau o ddydd i ddydd yn Gymraeg, a chefnogi cymunedau i berchnogi'r iaith, gallwn gynyddu a chryfhau'r defnydd o'r iaith ar draws Cymru. Rydym yn croesawu'r strategaeth uchelgeisiol newydd hon sy'n tanlinellu pwysigrwydd rôl cymunedau i sicrhau bod y Gymraeg yn parhau'n iaith fyw a ffyniannus.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Fforymau iaith

“ Cryfder Sir Gâr yw'r Fforwm Sirol – mae'n cynnwys yr holl bartneriaid gan gynnwys grwpiau pwyso a gwirfoddolwyr. Mae'n berthynas adeiladol sy'n darparu her gref i'r Cyngor.

Swyddog, Cyngor Sir Gâr

- 4.35 Ffurfiwyd y Fforymau iaith fel cyfrwng i ddod â phartneriaid sy'n gysylltiedig â hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir at ei gilydd i gynllunio a rhannu gwybodaeth ac arfer da, ond mae eu dylanwad a'u heffeithiolrwydd wedi amrywio yn y gorffennol. Mae cyfansoddiad ac aelodaeth Fforymau iaith ar draws Cymru hefyd yn amrywio, ond yn bennaf mae'n dwyn ynghyd bartneriaid hyrwyddo allweddol. Gyda datblygiad y strategaethau 5 mlynedd, mae'n gyfle i edrych ar gysoni gweithgaredd y Fforwm. Yn wir, mae nifer wedi achub ar y cyfle i edrych o'r newydd ar eu cylch gorchwyl ac ar nod canolog y Fforwm:

“ Mae'r Fforwm Sirol wedi gallu ehangu ei haelodaeth yn ystod y broses o gynllunio, a bellach mae mewn sefyllfa i ehangu eto fyth er mwyn sicrhau bod y prif gyrff sy'n darparu gwasanaethau yn Sir Gâr yn cydweithio i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg o flwyddyn i flwyddyn.

Cyngor Sir Gâr

“ Tra bu'r grŵp [y Fforwm] yn llwyddiannus o safbwynt rhannu manylion gweithgareddau cyfrwng Cymraeg sydd wedi eu trefnu, rhaid iddo fod yn fwy strategol yn ei weithgareddau a bod yn fwy clir o safbwynt ei nod a'i amcanion...

Mae gan y Fforwm iaith y potensial i gydlyn ymdrechion yr holl sefydliadau perthnasol a'r awdurdodau lleol er mwyn iddynt weithredu'n fwy strategol. Dylid ystyried ailedrych ar aelodaeth a chylch gorchwyl y Fforwm a'i ail lansio er mwyn iddo weithredu fel corff mwy strategol a chydlynol o safbwynt adfywio'r iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych.

Cyngor Sir Ddinbych

Astudiaeth achos: Fforwm Iaith Strategol Sirol Ynys Môn

Cyflwyniad

Y cyd-destun cenedlaethol

Hanfodion strategaethau
5 mlynedd

Gweledigaeth a pherchnogaeth

Cyfathrebu ac ymgynghori

Partneriaethau

Pennu targedau a mesur
perfformiad

Cyd-destun polisi ehangach

Atodiad 1

Atodiad 2

Atodiad 3

Atodiad 4

Atodiad 5

Atodiad 6

“Mae Fforwm Iaith partneriaethol yn bodoli ar lefel sirol er mwyn rhoi ffocws strategol i'r iaith Gymraeg ar yr Ynys. Wrth sefydlu'r Fforwm rydym ar unwaith yn datgan bod i'r Gymraeg bwysigrwydd sylfaenol i fywyd Ynys Môn.”

Cylch Gorchwyl Fforwm Iaith Ynys Môn

Sefydlwyd y Fforwm yn wreiddiol ym mis Medi 2014 gan y Cyngor Sir mewn cydweithrediad â'r Fenter Iaith a phartneriaid allweddol eraill. Yn 2016, i gwrdd â gofynion Safonau'r Gymraeg, penderfynwyd ailedrych ar rôl y Fforwm er mwyn datblygu'r Strategaeth Hybu a chynnig dull effeithiol o fonitro a chraffu ar gynnydd.

Mae'r Fforwm yn gorff annibynnol hyd braich o'r Cyngor Sir ac mae aelodaeth o'r Fforwm yn cynnwys partneriaid allweddol sy'n cyfrannu i'r maes iaith ar yr ynys, gydag amrywiaeth o sefydliadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae Cadeirydd annibynnol gan y Fforwm, sy'n sicrhau tegwch ynghyd â her i'r partneriaid. Mae aelod etholedig sy'n cynrychioli craffu yn y Cyngor yn aelod o'r Fforwm ynghyd ag aelodau etholedig eraill. Mae'r Fforwm yn cwrdd yn fisol i gynnal momentwm a monitro cynnydd yn rheolaidd.

Wrth greu cylch gorchwyl o'r newydd i gryfhau atebolrwydd, amlinellwyd rôl a chyfrifoldebau'r Fforwm:


- Cyfrannu tuag at darged Llywodraeth Cymru yn ei strategaeth 'Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr' trwy'r weledigaeth leol i weld cynnydd yn y nifer sy'n siarad a defnyddio'r Gymraeg (erbyn Cyfrifiad 2021 bod y ganran yn codi i o leiaf 60.1% fel ag yr oedd yn 2001).
- Cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.
- Cynyddu ymwybyddiaeth pobl o werth y Gymraeg fel rhan o'n treftadaeth ac fel sgil yn y Gymru gyfoes.
- Cydweithio ar lefel bartneriaethol drwy gyd-drafod, drwy rannu syniadau a thrwy sicrhau na ddyblygir gwaith y sefydliadau sydd yn y maes.
- Cydweithio ar lefel bartneriaethol i ganfod bylchau yn y ddarpariaeth a thrwy lunio gweithgareddau i gwrdd â'r angen.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

- Cydweithio i gyfarch yr heriau a'r cyfleoedd a gaiff datblygiadau megis 'Wylfa Newydd' ar y Gymraeg.
- Creu cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg yn yr economi leol yn gyffredinol ac yn y gwasanaethau cyhoeddus – mewn llywodraeth leol, iechyd, addysg, hamdden ayyb.
- Pwysu ar berchnogion y diwydiannau newydd a ddaw yma i arddel y Gymraeg a'i defnyddio.
- Pwysleisio gwerth economaidd-ddiwylliannol yr iaith yn y diwydiant twristiaeth.
- Nodi pwysigrwydd yr iaith wrth yr awdurdodau sy'n gyfrifol am gynlluniau adfywio.

Mae'r Fforwm Addysg bellach yn rhan o'r Fforwm Iaith gydag aelodau etholedig a Deiliad y Portffolio Addysg yn aelodau o'r Fforwm Iaith. Ceir ffocws yn chwarterol yn benodol ar y maes addysg. Mae hyn yn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o ddatblygiadau ac yn osgoi dyblygu ymdrechion.

4.36 O ran codi proffil eu rôl, mae ambell Fforwm yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gynyddu ymwybyddiaeth o'u gwaith a bydd cyfathrebu yn gynyddol bwysig i bartneriaid gyda gweithrediad y strategaethau 5 mlynedd:



Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Partneriaid allweddol eraill: Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

- 4.37 Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn gyfrifol am bob agwedd ar y maes Cymraeg i Oedolion – o'r cwricwlwm ac adnoddau ar gyfer tiwtoriaid, i ymchwil, marchnata, cyfathrebu ac e-ddysgu.

Cyfleoedd cydweithio: Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Mae'r Ganolfan yn gyfrifol am gynllunio a monitro darpariaeth 'Cymraeg i Oedolion', sef rhaglen addysg oedolion sy'n cael ei darparu ledled Cymru drwy rwydwaith o ddarparwyr. Mae'n gyfrifol am ddatblygu'r cwricwlwm, adnoddau i ddysgwyr a thiwtoriaid, ymchwil i'r farchnad, marchnata a chyfathrebu. Mae oddeutu 16,000 o oedolion ledled Cymru yn dysgu Cymraeg ar gyrsiau'r Ganolfan. Mae cyrsiau ar gael ar wahanol lefelau: Mynediad (ar gyfer dechreuwyr), Sylfaen, Canolradd, Uwch a Hyfedredd, sydd ar gael i siaradwyr rhugl hefyd.

Mae'r Ganolfan hefyd yn gyfrifol am y cynllun Cymraeg Gwaith/Work Welsh. Nod y cynllun yw cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i weithwyr mewn amryfal sectorau i ddysgu a gwella'u Cymraeg er mwyn ei defnyddio'n hyderus yn y gweithle a thu hwnt. Nid oes cost am yr hyfforddiant i gyflogwyr a

nod y cynllun yw cynnig cyfleoedd hyblyg i ddysgu Cymraeg, ar-lein ac wyneb yn wyneb.

Mae darparwyr y Ganolfan yn cynnig gwersi ar draws Cymru, ac yn cefnogi dysgwyr y Gymraeg. Cynhelir y gwersi mewn cymunedau ac anelir at sicrhau bod modd i bawb ddod o hyd i gwrs ar y lefel gywir o fewn pellter rhesymol o'u cartref neu fan gwaith. Y darparwyr lleol yw'r pwynt cyswllt ar gyfer sicrhau bod trafodaethau am gynllunio darpariaeth Cymraeg i Oedolion yn ffurfio rhan o Strategaethau Hybu Lleol. Mae rhestr o'r darparwyr i'w chael yma: <https://dysgucymraeg.cymru/amdanom/darparwyr/>

“ Mae'r Ganolfan yn awyddus i sicrhau bod ei darparwyr yn cyfrannu at Strategaethau Lleol ac yn awyddus i sicrhau bod cynllunio lleol yn digwydd er mwyn sicrhau bod gwersi yn cael eu cynnal er mwyn cefnogi strategaethau a blaenoriaethau lleol, gan gynnwys cefnogi rhieni sy'n dewis addysg Gymraeg i'w plant.

Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Partneriaid allweddol eraill: Urdd Gobaith Cymru

- 4.38 Nod yr Urdd yw sicrhau cyfle, trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, i holl ieuenctid Cymru ddatblygu'n unigolion cyflawn, a'u galluogi i chwarae rhan adeiladol yn y gymdeithas gan feithrin sgiliau personol a chymdeithasol.

Cyfleoedd cydweithio: Urdd Gobaith Cymru

Yr Urdd yw'r mudiad cyfrwng Cymraeg mwyaf i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae gan y mudiad dros 53,000 o aelodau gyda 30% o holl siaradwyr Cymraeg rhwng 8 a 25 oed yng Nghymru yn aelodau. Mae gan yr Urdd 260 o staff, 10,000 o wirfoddolwyr, 900 o ganghennau, gyda 200 yn ganghennau cymunedol. Yn ogystal ceir 150 o glybiau chwaraeon sy'n cyfarfod yn wythnosol. Mae 51% o'r ysgolion sy'n ymweld â'r gwersylloedd yn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Amcan yr Urdd yw dod â'r Gymraeg yn fyw i blant a phobl ifanc Cymru a chynyddu defnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg. Drwy weithio gydag amryw o bartneriaid, mae gan yr Urdd strwythurau i gynnig cyfleoedd cyson ac o ansawdd ar draws Cymru gyfan.

Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, mae'r Urdd wedi pennu'r blaenoriaethau isod. Mae'r blaenoriaethau hyn yn gydnaws ag un o ganfyddiadau [Adolygiad brys o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg \(2017 – 2020\)](#) Aled Roberts, bod angen gwella darpariaeth 'Cymraeg yn y

gymuned' a gweithgareddau ar ôl ysgol ar gyfer plant a phobl ifanc:

- Trefnu gweithgareddau a datblygu prosiectau sy'n cynyddu defnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg a chynyddu'r nifer o swyddogion ieuenctid sy'n gallu gwneud hyn
- Cynyddu gweithgaredd chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg
- Sicrhau bod mwy o gyfle i blant a phobl ifanc gymryd rhan yn yr Eisteddfod ac yn y celfyddydau
- Parhau i ddatblygu gwersylloedd yr Urdd fel canolfannau o'r safon uchaf, a buddsoddi yn yr adnoddau
- Gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod y gwaith yn cyfrannu at strategaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol
- Darparu cyfleoedd prentisiaethau cyfrwng Cymraeg drwy amryw o lwybrau galwedigaethol ar draws Cymru.

Yn ôl Sian Lewis, Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru:

“Drwy adeiladu perthynas weithredol gyda'r Urdd, bydd plant a phobl ifanc ar draws Cymru yn gallu manteisio ar brofiadau lle mae'r Gymraeg yn iaith fyw tu hwnt i'r ysgol. O ganlyniad i brofiadau hwyliog a chyfeillgarwch trwy'r Urdd, bydd plant a phobl ifanc yn magu perthynas gadarnhaol tuag at y Gymraeg.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Partneriaid allweddol eraill: Mudiad Meithrin

- 4.39 Mae Mudiad Meithrin yn fudiad gwirfoddol cenedlaethol ac mae'n cael ei gydnabod fel prif hwylusydd a darparwr gofal plant ac addysg blyneddodd cynnar cyfrwng Cymraeg yn y sector wirfoddol.

Cyfleoedd cydweithio: Mudiad Meithrin

Nod Mudiad Meithrin yw rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru fanteisio ar wasanaethau a phrofiadau blyneddodd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae pwyslais arbennig yn cael ei roi ar ddatblygiad iaith, ac ar ddatblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol plant.

Pan sefydlwyd y Mudiad yn 1971 roedd ffigurau'r Cyfrifiad y flwyddyn honno yn nodi mai 11.3% o blant 3-4 oed yng Nghymru oedd yn gallu siarad Cymraeg. Cafwyd cynnydd graddol yn y ganran yma ym mhob degawd ers hynny ac erbyn Cyfrifiad 2011 roedd y ffigur wedi cynyddu'n sylweddol yn y degawd olaf i 23.3% o blant 3-4 oed yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r Mudiad yn ymfalchïo yn y gwaith caled a wnaed yn y Cylchoedd Meithrin a'r cylchoedd Ti a Fi dros y blyneddodd i gyfrannu'n sylweddol at sicrhau'r cynnydd hwn.

Mae rhwydwaith o Swyddogion Cefnogi'r Mudiad yn gweithio'n lleol er mwyn cynnig arweiniad a chynghor ymarferol i staff y cylchoedd, gwirfoddolwyr a rhieni. Mae partneriaethau cryf wedi'u sefydlu gan staff a Swyddogion Cefnogi ar draws Cymru ac mae nifer o'r strategaethau hybu sirol yn adlewyrchu pwysigrwydd y Mudiad yn lleol fel partner allweddol.

Yn ôl Gwenllïan Lansdown Davies, Prif Weithredwr y Mudiad:

“Yn sicr mae budd mawr i'w gael o ddatblygu perthynas â phartneriaid ar lefel leol gan ein bod oll yn rhan o'r darlun ehangach o ran hybu a hwyluso. Mae gan y Mudiad wybodaeth a dealltwriaeth arbenigol o'r maes. Croesawn y cyfle felly i hyrwyddo ein gwaith ymhellach wrth i awdurdodau lleol ddwyn eu strategaethau hybu yn eu blaenau ac wrth i ni weithio tuag at yr un nod dros y blyneddodd i ddod.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

- 4.40 Mae enghreifftiau lawer o gydweithio ymhlith partneriaid wrth rannu ymdrechion ac arbenigedd, er enghraifft:

Darpariaeth bartneriaethol: Clwb Cwtsh

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a Mudiad Meithrin yn cydweithio i gyflwyno cyrsiau blasu Cymraeg newydd ar gyfer teuluoedd. Enw'r rhaglen o gyrsiau yw 'Clwb Cwtsh' a bydd yn cyflwyno teuluoedd i eirfa ac ymadroddion sy'n berthnasol i fagu plant ifanc. Bydd dysgwyr yn cael eu hannog i ddefnyddio'u Cymraeg gyda'u plant o'r cychwyn cyntaf. Mae disgwyl y bydd hyd at 600 o ddysgwyr yn dilyn y cynllun mewn bron i 80 o leoliadau 'Clwb Cwtsh'. Ar ôl cwblhau'r cynllun, bydd dysgwyr yn cael eu hannog i ddilyn un o gyrsiau darparwyr y Ganolfan Genedlaethol. Mae mwy o wybodaeth ar gael [yma](#).

“Diolch i rieni a gofalwyr di-Gymraeg sy'n dewis gyrru eu plant i Gylchoedd Meithrin fel y cam cyntaf ar y daith at siarad Cymraeg, mae gennym gyfle gwych i gyrraedd cynulleidfa o ddysgwyr trwy gynllun hwyliog 'Clwb Cwtsh'. Mae'r pwyslais ar fwynhau wrth ddysgu ac annog dysgwyr i sylweddoli eu bod hwythau hefyd fel oedolion yn gallu cymryd y cam cyntaf at siarad Cymraeg.

Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr Mudiad Meithrin

Partneriaid allweddol eraill: Colegau a phrifysgolion

- 4.41 Mae colegau a phrifysgolion yn bartneriaid allweddol mewn sawl ffordd – o safbwynt eu poblogaethau o fyfyrwyr, gweithgareddau cymunedol a gwirfoddoli, gweithgareddau dysgu Cymraeg, cyfleoedd profiad gwaith, mentora a phrentisiaethau gyda chynghorau sir, y parciau a phartneriaid amrywiol a meysydd ymchwil eu hadrannau gwahanol.
- 4.42 Isod, mae dwy enghraifft o'r modd y mae nodau strategaeth 5 mlynedd y cyngor sir yn cydbblethu â gwaith ymchwil blaengar a gaiff ei arwain gan y brifysgol leol:

Ymchwil newid ymddygiad – Gwasanaethau Hamdden Cyngor Ynys Môn a Phrifysgol Bangor

Un o flaenoriaethau'r Cyngor yw sicrhau cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol drwy gynyddu'r defnydd a phrif ffrydio'r Gymraeg ym maes hamdden a chwaraeon.

Fel un agwedd ar y gwaith mae Adran Gwasanaethau Hamdden y Cyngor yn cydweithio â myfyriwr doethuriaeth o Brifysgol Bangor ar brosiect newid ymddygiad iaith. Mae'n ddyddiau cynnar i'r ymchwil eto, ond mae'r Cyngor yn gobeithio y bydd deilliannau'r ymchwil o fudd i gynghorau a sefydliadau eraill hefyd o ran deall ymddygiad iaith mewn maes strategol penodol a chynllunio'r modd y mae'n darparu gwasanaethau i ateb anghenion iaith yn fwy effeithiol.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Ymchwil pensaernïaeth dewis – Adran Addysg Cyngor Caerdydd a Phrifysgol Caerdydd

Ar y cyd â'r Brifysgol, mae Cyngor Caerdydd yn bwriadu cynnal gwaith ymchwil arloesol sy'n tarddu o waith ar newid ymddygiad. Nod y gwaith yw ystyried y modd y caiff dewisiadau eu cynnig i weld a yw'r cyhoedd a siaradwyr Cymraeg yn wynebu dewis teg ai peidio.

Y maes blaenoriaeth yw:

“ Archwilio'r ffordd y mae ein gwasanaethau'n cael eu cynnig i'r cyhoedd a gweithio gydag arbenigwyr mewn pensaernïaeth dewis iaith i sicrhau dewis teg.

Yn aml, gwelir bod defnydd o wasanaethau Cymraeg yn isel ond mae ymchwil yn awgrymu nad oes modd dehongli ffigurau isel o ddefnydd fel arwydd o ddiffyg awydd ar ran siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg. Mae ymchwil wedi'i gynnal i ddadansoddi a fyddai newid y ffordd y caiff y dewis ei gynnig i'r defnyddiwr yn llwyddo i gynyddu'r defnydd o wasanaeth Cymraeg.

Gelwir y dull hwn o weithredu fel 'saernïo dewis' (choice architecture) a gaiff ei ddefnyddio yn aml ym myd technoleg i hwyluso dewis teg. Mae'r ymchwil wedi canfod bod lleihau'r ymdrech mae'n rhaid i rywun ei gwneud i gyrraedd at wasanaeth Cymraeg yn un ffordd o gynyddu defnydd o'r gwasanaeth.

Hanfod cyffredinol y gwaith yr arfaethir ei wneud yn achos Cyngor Caerdydd yw cymhwyso'r canfyddiadau hynny i systemau'r Cyngor, er mwyn cynyddu'r defnydd o'r gwasanaethau Cymraeg y mae'r Cyngor yn eu cynnig.

Ond defnydd o wasanaethau'r Cyngor yn unig sydd o dan sylw. Bwriad y gwaith yw arbrofi â'r dull a ddefnyddir gan rieni a gwarcheidwaid er mwyn dewis ysgol i blant, er mwyn gweld a ellir cynyddu nifer y rhieni sy'n dewis anfon eu plant i Ysgol Gymraeg er mwyn cyfrannu at darged y Cyngor a'r Llywodraeth o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

Un posibilrwydd o wneud hyn yw defnyddio dull 'Profi A/B' (lle cyflwynir rhyngwyneb defnyddiwr ar hap ar ffurf dau fersiwn, gydag ond un gwahaniaeth rhwng y ddau fersiwn).

Drwy gymryd y system ar wefan y Cyngor sy'n cyflwyno rhestr o'r ysgolion y gall rhieni ddewis ohonynt i'w plant, gellir cymharu'r system ar ei gwedd gyfredol â fersiwn o'r system lle y cyflwynir rhestr o'r ysgolion y gellir eu dewis gyda'r ysgolion Cymraeg yn ymddangos yn gyntaf ar frig y rhestr. Y nod yw gweld a yw trefn weledol a hwylustod yn gallu dylanwadu ar ymddygiad drwy gymharu fersiynau A a B o dudalen y wefan.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Gellir hefyd dreialu negeseuon gwahanol cyn neu wrth i rieni weld y dewis hwn er mwyn 'premio'r' defnyddwyr i'r ffaith bod gwaith ar waith i gynyddu niferoedd y siaradwyr Cymraeg.

Y gobaith yw cynnal y gwaith hwn yn 2018 gyda'r canlyniadau yn sail i ymchwil neu gamau gweithredu pellach. Y gobaith yw y bydd unrhyw ganlyniadau o ddefnydd i gynghorau sir eraill hefyd.

- 4.43 Mae gwaith ar y cyd â phartneriaid yn gallu agor drysau i ffynonellau grant o'r newydd yn ogystal â chyfleoedd i ymestyn gweithgareddau i feysydd newydd drwy rannu syniadau, gallu ac adnoddau.
- 4.44 Isod gwelir dwy enghraifft o'r modd y mae partneriaid allanol arweiniol yn gallu ychwanegu gwerth a budd i nodau sirol drwy wthio blaenoriaethau strategol yn eu blaen mewn ffyrdd arloesol.

Cymraeg i fewnfudwyr a ffoaduriaid – Cymraeg i Oedolion, Prifysgol Caerdydd

Un o flaenoriaethau strategol Cyngor Caerdydd yw:

“Cyflwyno'r iaith Gymraeg i gymunedau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg fel modd o ddod â diwylliannau Cymru ynghyd a hyrwyddo dysgu Cymraeg ac addysg Gymraeg

Bwriad y Cyngor oedd trafod â phartneriaid ac unigolion er mwyn datblygu darpariaeth o ddosbarthiadau Cymraeg ar gyfer cymunedau newydd ac egin gymunedau gan gynnwys ffoaduriaid a mewnfydwyr, er mwyn adnabod cyfleoedd i gymunedau newydd yn y ddinas ddysgu'r Gymraeg.

Yn dilyn poblogrwydd cyfres o wersi gan wirfoddolwyr, mae Cymraeg i Oedolion yn y Brifysgol wedi denu grant gan y Ganolfan Genedlaethol i benodi tiwtor yn ffurfiol i weithio'n benodol gyda cheiswyr lloches a ffoaduriaid. Y nod yw cynnig cyrsiau iaith a digwyddiadau anffurfiol i gynorthwyo cymhathu a bydd y cyrsiau a'r digwyddiadau hyn yn agored i deuluoedd ac unigolion ac yn hyblyg o ran natur gan ymateb i anghenion y cymunedau newydd hyn ar draws y ddinas.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Prosiect cyflwyno'r Gymraeg: Ymgysylltu â grwpiau Aml-ddiwyllynnol – Cyngor Casnewydd a Choleg Gwent

Un o dargedau Strategaeth 5 mlynedd Cyngor Dinas Casnewydd yw:

“nodi unrhyw grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg Gymraeg a thargedu gweithgareddau hyrwyddo drwy ymgyrch gyfathrebu amlasiantaethol”, ynghyd â “hyrwyddo dysgu Cymraeg i oedolion.”

Drwy ddadansoddi data cyfrifiad ysgolion Casnewydd, gwelwyd bod disgyblion o gefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn llawer llai tebygol o fynd i ysgolion Cymraeg nag i ysgolion cyfrwng Saesneg. Nod y prosiect dan sylw yw cyfrannu'n gadarnhaol at gynyddu'r niferoedd sy'n mynychu ysgolion Cymraeg yn y pen draw.

Wrth ymateb i her y strategaeth, roedd y Cyngor yn cydnabod bod angen i garfan siaradwyr Cymraeg yr ardal fod yn gynrychioliadol o'r boblogaeth yn gyffredinol, ac y dylai pawb gael y cyfle i ddysgu Cymraeg a bod angen i'r cyfle hwnnw gael ei gynnig mewn modd rhagweithiol.

Gyda Dysgu Cymraeg Gwent yn arwain, gwnaed cais ar y cyd i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ariannu prosiect i ymgysylltu â grwpiau aml-ddiwyllynnol yr ardal. Partneriaid y prosiect yw Cyngor Dinas Casnewydd, Dysgu Cymraeg Gwent, Menter Iaith Casnewydd a Chyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru (SEWREC).

Mae'r prosiect hwn yn dod â sefydliadau partner allweddol at ei gilydd er mwyn cyflwyno gweithgareddau i hyrwyddo'r iaith mewn ffordd hygyrch, sydd wedi'i thargedu at grwpiau penodol sy'n rhan o rwydweithiau lleol sydd wedi'u sefydlu ers degawdau. Bydd y gwaith yn digwydd rhwng mis Mawrth a Mehefin 2018.

Hanfodion strategaethau 5 mlynedd

Pennu targedau a mesur perfformiad

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Pennu targedau a mesur perfformiad

- 4.44 Un o'r prif gwestiynau sy'n codi yw:
- Pa dystiolaeth fydd gennym o'r gwahaniaeth mae ein strategaeth wedi'i wneud i
- gynnal neu gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal
 - cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn yr ardal
- 4.46 Fel gyda strategaeth y Llywodraeth, [Cymraeg 2050](#), dyma'r ddau brif nod sy'n sail i'r strategaethau 5 mlynedd. Mae Strategaeth y Llywodraeth yn nodi:
- Bydd Dangosyddion 36 a 37 o Ddangosyddion Cenedlaethol Cymru yn cael eu defnyddio i olrhain cynnydd yn erbyn y nod llesiant cenedlaethol a thuag at ddau darged cyffredinol y strategaeth hon. Dyma'r dangosyddion:
- Dangosydd Llesiant 36: Y ganran o'r bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau o Gymraeg.
 - Dangosydd Llesiant 37: Y ganran o'r bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.
- 4.47 Mae nifer o'r strategaethau 5 mlynedd yn nodi'n glir eu bod wedi cymryd gweledigaeth Llywodraeth Cymru fel man cychwyn i'w targedau.

Methodoleg pennu targed nifer siaradwyr Cymraeg – Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Roedd yn bwysig ystyried beth roedd targed Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn ei olygu i'r Fwrdeistref Sirol ac felly roedd angen i ni sefydlu gwaelodlin. Roedd yn golygu meintoli'r wybodaeth a'r data oedd ar gael ar y pryd i ni er mwyn pennu targed blynyddol.

Aeth Cyngor Merthyr ati, gan sefydlu'n gyntaf yr angen iddynt gynnal nifer cyfredol eu siaradwyr Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol fel isafswm.

Er mwyn cyflawni targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr, gwelwyd y byddai angen dyblu canran y siaradwyr Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol a oedd yn golygu sicrhau cynnydd o'r 8.9% o siaradwyr Cymraeg sydd ganddynt ar hyn o bryd i 17.8% o'r boblogaeth leol yn siarad Cymraeg erbyn 2050.

Roedd hyn yn golygu bod angen sicrhau cynnydd blynyddol o 0.3% sy'n golygu 177 o bobl yn ychwanegol bob blwyddyn ym Merthyr Tudful (yn seiliedig ar y boblogaeth bresennol o 59,000). Mae'n bosibl na welir cynnydd ym mlynnyddoedd cynnar y strategaeth ond roedd y Cyngor o'r farn ei bod hi'n bwysig deall union natur yr her.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Mae'r Cyngor yn nodi:

“ Mae hyn yn darged uchelgeisiol i'w gyflawni ond byddwn yn olrhain cynnydd o flwyddyn i flwyddyn ac o strategaeth i strategaeth. Nid oeddem am bennu targed ceidwadol a fyddai'n hawdd i'w gyrraedd. Roeddem am gydnabod yr her mae pob un ohonom yn ei hwynebu er mwyn gwireddu'r targed cenedlaethol.

Swyddog Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

4.48 Dyma sut mae'r Llywodraeth yn bwriadu olrhain cynnydd yn erbyn y ddau ddangosydd canlynol:

Y dangosydd	Beth gaiff ei fesur	Ffynhonnell data	Cyd-destun pellach
(36) Y ganran o'r bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau o Gymraeg	Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn siarad mwy nag ychydig o eiriau o Gymraeg, a'u bod yn siarad Cymraeg bob dydd, mewn ymateb i Arolwg Cenedlaethol Cymru (sydd hyd yma wedi ei gynnal bob blwyddyn i bobl dros 16 oed) ac unrhyw Arolygon Defnydd Iaith.	Arolwg Cenedlaethol Cymru Arolygon Defnydd Iaith	Nid oes sicrwydd ynghylch amlder yr arolygon defnydd iaith o 2018-19 ymlaen. Yn lleol, bydd hefyd modd i rai cyrff olrhain niferoedd sy'n gwneud defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle; a defnydd o'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau.
(37) Y ganran o'r bobl sy'n gallu siarad Cymraeg	Canran y bobl sy'n cofnodi yn y Cyfrifiad eu bod yn gallu siarad Cymraeg.	Cyfrifiad 2011 Cyfrifiad 2021	Bydd modd tracio unrhyw gynnydd rhwng y ddau Gyfrifiad gan ddefnyddio Arolwg Cenedlaethol Cymru (oedolion) a Chyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar lefel Disgyblion (plant). Yn lleol, bydd hefyd modd i gyrff olrhain niferoedd pobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn y gweithlu drwy eu systemau mewnol.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Gwaelodlin

- 4.49 Gwaelodlin yw'r man cychwyn er mwyn gallu mesur perfformiad, ac yn achos y ddau darged uchod mae'r gwaelodlin yn glir o ran niferoedd siaradwyr a'r sawl sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau ac sy'n adrodd eu bod yn siarad Cymraeg bob dydd.
- 4.50 Mae gwybod pa darged i'w bennu yn gallu bod yn broblematig heb wybodaeth ddigonol, neu pan nad oes gwaelodlin yn bodoli. Mae hyn yn wir pan fydd cyrff yn mabwysiadu camau gweithredu newydd neu arloesol a phan nad oes tystiolaeth flaenorol o berfformiad tebyg.
- 4.51 Mae'n bosibl y bydd angen mesur perfformiad ar ddechrau unrhyw fenter newydd a'i olrhain am ychydig cyn penderfynu ar darged terfynol, er mwyn gweld beth sy'n realistig a chyraeddadwy.
- 4.52 Fel nodwyd, mae nifer o'r strategaethau 5 mlynedd wedi'u seilio ar waith proffilio ac ymchwil manwl i sefyllfa'r Gymraeg yn lleol o ran y boblogaeth a'r ddarpariaeth sydd ar gael, ac mae hyn yn aml wedi'i amlinellu yn y strategaethau eu hunain.
- 4.53 Isod mae enghraifft o'r modd y mae proffil ieithyddol Ynys Môn wedi darparu gwaelodlin er mwyn cynllunio cynnydd yn strategol. Mae'r data sydd ar gael yn darparu dangosyddion er mwyn mesur y cynnydd hwnnw gan arwain at gamau gweithredu ar gyfer blwyddyn 1 i'w hadolygu'n flynyddol.

Maes Blaenoriaeth 3 – Y Gymuned

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Mae trydydd maes blaenoriaeth y Strategaeth iaith yn canolbwyntio ar hyrwyddo'r Gymraeg ar lefel cymunedol.

Mae'r farchnad dai yn ansafonlog ar yr ynys gyda phrinder tai fforddiadwy ar gyfer y boblogaeth leol. Yn ogystal, mae diffyg swyddi sefydlog sy'n talu'n dda a gorddibyniaeth ar y sector gyhoeddus/darparu ynghyd â rhai diwydiannau penodol megis twristiaeth ac amaeth. Mae'r rhain yn heriau gwirioneddol o ran cadw pobl ifanc a theuluoedd ar yr ynys.

Mae cyfraddau trosglwyddiad iaith hefyd yn her o fewn y gymuned gyda nifer isel o rieni/gofalwyr yn trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant, statws isel yr iaith o fewn y gymuned, diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar lefel cymunedol ac effaith lefelau mewnffudo ac allffudo ar ddemograffeg yr ynys. Er mwyn i gymunedau ffynnu, mae'n bwysig hefyd bod cyfleoedd i drigolion yr ynys a mewnffudwyr ddefnyddio'r Gymraeg a'i defnyddio'n gymdeithasol.

Cydnabyddir bod yn rhaid i'r gwaith adnewyddu ieithyddol fynd law yn llaw â'r gwaith o wella'r seilwaith gymdeithasol ac economaidd.

Nod

Hyrwyddo a marchnata gwerth a phwysigrwydd y Gymraeg

Hyrwyddo ac adnabod cyfleoedd i gryfhau'r Gymraeg o fewn y cymunedau ac adnabod bylchau mewn darpariaeth.

Y canlyniad a ddymunir

Cynnal y wardiau lle mae 70% o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg a chynyddu canrannau gweddill y wardiau eraill.

Dangosyddion

- Cynnydd yn y wardiau sydd â dros 70% yn siarad Cymraeg
- Cynnydd yn y wardiau sydd â dros 50% yn siarad Cymraeg
- Nifer y gweithgareddau a gynhelir i gymhathu dysgwyr y Gymraeg
- Nifer y dosbarthiadau Cymraeg yn y gymuned neu Gymraeg i'r teulu
- Cynnydd yn y nifer sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddoli cyfrwng Cymraeg
- Cynnydd yn y defnydd o'r ap cyfieithu
- Cynnydd yn nifer y cyfarfodydd o fewn y Cyngor Sir a gynhelir trwy gyfrwng y Gymraeg
- Nifer yr ymweliadau i'r safle we sy'n hysbysebu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg
- Nifer datblygiadau sy'n cyd-fynd gyda pholisiau'r Cynllun Datblygu Lleol
- Nifer o dai gwag ar yr ynys sy'n dod yn ôl i ddefnydd fel tai parhaol
- Nifer pecynnau croeso a ddosbarthwyd i fewnfudwyr/a lawrlwythwyd

Gweler y cynllun gweithredu ar gyfer camau gweithredu blwyddyn 1. Bydd yn cael ei ddiweddarau'n flynyddol.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Mesur perfformiad

- 4.54 Mae nifer o flaenoriaethau strategol yn deillio o'r ddau nod cyffredinol o gynnal neu gynyddu nifer siaradwyr a chynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y strategaethau 5 mlynedd.
- 4.55 O'r blaenoriaethau strategol hynny, mae'r cyrff wedi pennu targedau a'u cynnwys mewn cynlluniau gweithredu sy'n nodi'r gweithgareddau a gaiff eu cynnal i sicrhau eu bod nhw, ar y cyd â'u partneriaid, yn gwireddu'r weledigaeth.
- 4.55 Bydd eu dangosyddion a'u dulliau o fesur perfformiad yn erbyn y targedau hyn yn amrywio, gyda rhai yn cydnabod yr angen am greu mesuriadau o'r newydd. Ond, er mwyn datblygu dangosyddion ar gyfer y blaenoriaethau strategol, mae angen deall pa ddata sydd ar gael a pha fesuryddion sydd angen eu datblygu.

“Nid gwaith hawdd yw llunio strategaeth iaith dros y tymor canolig i hir. Gall yr amgylchiadau economaidd a chymdeithasol newid yn eithaf cyflym... Hefyd, mae hi'n anodd iawn mesur beth yw'r effaith uniongyrchol hirdymor y mae'r gwahanol brosiectau a'r gwaith a wnaed i hyrwyddo'r iaith wedi eu cael ar nifer siaradwyr yr iaith.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Diffinio sut i fesur perfformiad

- 4.57 Caiff mesur perfformiad yn y sector llywodraeth leol yng Nghymru ei yrru gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2010 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.
- 4.58 Mae'r rhain yn rhoi dyletswydd ar gynghorau i sicrhau cynnydd parhaus wrth iddynt weithredu eu swyddogaethau, ac wrth wneud hynny rhaid iddynt dalu sylw i 'welliant' wrth baratoi cynlluniau gwella a gosod targedau.
- 4.59 Mae nifer o ffactorau yn dylanwadu ar ddulliau mesur perfformiad, a nifer o'r ffactorau hynny yn rhai na ellir eu hosgoi – yn bennaf cyfyngiadau amser ac adnoddau. Mae'r rhain yn cael effaith fawr ar allu swyddogion i gasglu gwybodaeth ystyrllon er mwyn cwrdd â therfynau adrodd chwarterol neu flynyddol.
- 4.60 Oherwydd hyn, efallai fod tuedd i fesur targedau sy'n hawdd i'w monitro i greu ystadegau clir (niferoedd neu ganrannau), y gellir eu defnyddio'n gyson i ddangos cynnydd neu ostyngiad.
- 4.61 Serch hynny, un o'r sylwadau mwyaf cyson a gododd wrth gyfweld â swyddogion ledled Cymru oedd yr anhawster i fesur cynnydd yng nghyd-destun llwyddiant hybu a hyrwyddo'r Gymraeg.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

4.62 Mae sawl diffiniad o ‘fesur’ yn bodoli, ac yn eu plith:

Canfod maint, swm, neu radd (rhywbeth) trwy ddefnyddio teclyn neu system fesul unedau safonol

4.63 Mae hyn yn ddull safonol, er enghraifft er mwyn sefydlu nifer a chanran siaradwyr Cymraeg mewn gweithlu i sicrhau ystadegau ar gyfer adroddiad blynyddol. Mae hefyd yn wybodaeth bwysig fel gwaelodlin ar gyfer cynllunio'r gweithlu a chynllunio ieithyddol.

4.64 Serch hynny, fel sydd wedi'i nodi, rhan o'r darlun yn unig yw hon, nid yw'n darparu gwybodaeth am arferion defnydd, hyder ac ymddygiad yr unigolion dan sylw.

4.65 Rhaid ychwanegu at y diffiniad hwn o fesur ac ystyried dulliau o sicrhau mwy o wybodaeth ansoddol i olrhain llwyddiant, cynnydd a boddhad:

Asesu pwysigrwydd, effaith, neu werth (rhywbeth)

4.66 Mae hyn yn cynyddu opsiynau mesur llwyddiant ac yn cyfoethogi'r dystiolaeth, ac ni ddylid diystyru pwysigrwydd casglu gwybodaeth ansoddol. Mae hyn yn ychwanegu at y ffynonellau gwybodaeth er mwyn adrodd ar gynnydd y strategaethau 5 mlynedd a chreu darlun llawnach i'r stori.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Gwybodaeth feintiol

- 4.67 Gyda dim ond dau ddangosydd cenedlaethol yn mesur gallu a defnydd o ran y Gymraeg mewn modd meintiol, mae modd chwilio am gyfleoedd i ehangu dulliau mesur a chasglu data sydd eisoes yn cael eu defnyddio mewn meysydd perthnasol er enghraifft, addysg, gwasanaethau, tai, diwylliant a gwirfoddoli.

Osgoi dyblygu ymdrechion – defnyddio mesuryddion sydd eisoes ar waith

Un enghraifft syml o ehangu dull o fesur sydd eisoes ar waith, yng nghyd-destun y dangosyddion llesiant cenedlaethol, yw ystyried dangosydd rhif 35:

Canran y bobl sy'n bresennol neu'n cyfranogi mewn gweithgareddau ym maes y celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf 3 gwaith y flwyddyn

Gan fod gofyn i gyrff gasglu'r math hwn o wybodaeth, gallai fod yn bosib ychwanegu un cam bach:

Canran y bobl sy'n bresennol neu'n cyfranogi mewn gweithgareddau ym maes y celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf 3 gwaith y flwyddyn trwy gyfrwng y Gymraeg.

Neu, gellid sicrhau bod dangosyddion yn cynnwys cofnod dewis iaith er mwyn gallu dadansoddi'r data ymhellach. Wrth ystyried bod adnoddau ac amser yn aml yn brin, mae'n bwysig dod o hyd i dulliau cymharol hwylus o gasglu tystiolaeth. Mewn rhai achosion mae'n bosibl ystyried sut y gellir ateb sawl diben monitro ac adrodd mewn un. Er enghraifft, mae Cyngor Caerffili wedi creu matrices i'w galluogi i groesgyfeirio deilliannau'r Strategaeth 5 mlynedd â 7 nod llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

- 4.68 Mae natur a chwmpas y targedau sydd ynghlwm â strategaethau 5 mlynedd y cyrff yn eang iawn ac yn gofyn am gynllunio a mesur effeithiol i ddangos cynnydd. Mae pennu mesuryddion hwylus ac ystyrlon yn gallu bod yn heriol, ac isod mae enghraifft o'r modd y mae un Cyngor Sir wedi mynd ati i adnabod mesuryddion perthnasol.

Mesur canlyniadau – Cyngor Sir Gâr

Wrth lunio Strategaeth Hybu Sir Gâr ac edrych y tu hwnt i darged penodol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, roedd y Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd yr holl weithgareddau ar lawr gwlad oedd yn cyfrannu at gynyddu defnydd a hyder siaradwyr ar draws y sir:

“ Mae nifer o ffactorau yr hoffem ymgodymu â nhw yn Sir Gâr nad ydynt yn ymddangos mewn canlyniadau cyfrifiad, fel hyder ein trigolion yn eu sgiliau iaith, a'r defnydd y gwnânt ohonynt o ddydd i ddydd.

“ Yn ogystal â mesur effaith, teimlwn ei fod yr un mor bwysig tynnu sylw at lwyddiannau o ran datblygu'r Gymraeg yn y sir. Bydd hyn nid yn unig yn tanlinellu'r mathau o brosiectau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol, ond hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar ddelwedd y gwaith o hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymreig, ac yn ei dro, yn dylanwadu'n gadarnhaol ar agweddau tuag at y Gymraeg o fewn y sir.

“ Ein bwriad felly... ydyw arbrofi gyda chymysgedd o ddulliau gwahanol o fesur cynnydd a lledaenu negeseuon er mwyn canfod model effeithiol ar gyfer ein hanghenion ni yn Sir Gâr.

Yn ogystal â data ac ystadegau Cyfrifiad ac addysg, roedd y Cyngor yn cydnabod bod angen sicrhau mesuryddion ymarferol a chadarnhaol i'r gweithgareddau cymunedol oedd yn olrhain cynnydd cam wrth gam. Byddai hyn wedyn yn sefydlu gwaelodlin fwy cyfoethog, yn ychwanegol at ddata'r boblogaeth. Er mwyn gwneud hyn comisiynwyd cwmni allanol i gynnal astudiaeth o'r mesuryddion oedd ar gael er mwyn i'r Cyngor:

- asesu i ba raddau roedd yn debygol o gyflawni nodau'r Strategaeth;
- adrodd i'r Comisiynydd yn unol â'r gofynion yn y safonau.

Aethpwyd ati i gynnal gwaith ymchwil a chasglu data, ac argymhell a dwyn ynghyd y mesuryddion posibl sydd ar gael i'r Cyngor gyflawni'r gwaith hwn ar y cyd â'r partneriaid sy'n gyfrifol am weithrediad nifer o'r targedau, a'r Fforwm Iaith Sirol sy'n craffu ac yn monitro.

Mae'r ymchwil wedi'i gwblhau ac mae gan y Cyngor ffynhonnell i'w cynorthwyo i bennu'r dulliau mesur gorau ar gyfer y strategaeth.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

4.69 Yn gyffredinol, gan gadw mewn cof ofynion safonau 145 a 146 o ran egluro sut mae corff yn bwriadu cyrraedd y targed ac asesu i ba raddau mae wedi cyrraedd y targed hwnnw ar ôl 5 mlynedd, mae nifer o gynlluniau gweithredu yn adlewyrchu trefniadau safonol o ran gallu monitro ac adrodd ar gynnydd yn hwylus ar gyfer prosesau craffu'r cyrff. Er bod fformat cynlluniau gweithredu'r cyrff yn amrywiol, mae'r prif enghreifftiau yn cynnwys:

- Meysydd blaenoriaeth strategol
- Nodau cyffredinol
- Canlyniadau dymunol
- Dangosyddion
- Gweithgareddau
- Pwy sy'n arwain/yn gyfrifol
- Pa adnoddau sydd i'w clustnodi
- Amserlen tymor byr (blwyddyn gyfredol)
- Amserlen hirdymor (erbyn diwedd oes y strategaeth)

4.70 Yn Atodiad 3, gwelir crynodeb o arferion da mewn cynlluniau gweithredu a allai fod o ddiddordeb i gyrff wrth adolygu eu cynlluniau o flwyddyn i flwyddyn.

“ Mae pennu targedau CAMPUS yn hollbwysig oherwydd bod angen rhoi sicrwydd i'r Cyngor am y targedau a sicrhau bod modd asesu, adrodd a rhoi tystiolaeth o'r cynnydd ar gyfer llwybr craffu clir.

Swyddog, Cyngor Sir Ddinbych

4.71 Mae targedau CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Priodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol) yn allweddol i wireddu'r weledigaeth gan fod nod a cherrig milltir clir yn perthyn iddynt. Mae hyn yn hwyluso'r broses adrodd, craffu ac adolygu, sef y cylch cynllunio strategol:

- Ble rydym am fod ac erbyn pryd? (Blwyddyn 1)
- Sut rydym yn cyrraedd yno?
- Sut rydym yn mesur cynnydd?
- Sut lwyddiant gawsom?
- Sut allwn ni wella ar hyn?
- Ble rydym am fod ac erbyn pryd? (Blwyddyn 2) ac ymlaen.

4.72 Mae targedau CAMPUS hefyd yn galluogi cyrff i oresgyn y duedd i seilio camau gweithredu ar argraffiadau neu dybiaethau.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Gwybodaeth ansoddol

- 4.73 Mesur canlyniadau yw elfen allweddol y strategaethau, ond nid oes modd cyfrif a phriodoli pob canlyniad i weithgaredd penodol o reidrwydd. Mae rhai canlyniadau yn anodd iawn eu meintoli – fel cynnydd mewn hyder neu newid mewn agwedd. Mae nifer o gyrff wedi dechrau mynd i'r afael â'r agwedd hon ac fel nodwyd, mae sawl un yn cydnabod yr angen am fesuryddion newydd.
- 4.74 Er ei bod hi'n anodd mesur dylanwad mewn ffigurau, mae angen ceisio dod o hyd i ffon fesur ystyrion i weithgareddau amrywiol. Mae hyn yn gofyn am gyfuniad o ddulliau ansoddol a meintiol. Er enghraifft, ar gyfer cyfres o weithgareddau gellid cofnodi nifer y mynychwyr a chynnal arolwg barn cryno ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod i fesur newid mewn ymddygiad iaith.
- 4.75 Cyn penderfynu ar ddull o fesur, rhaid diffinio'r hyn y byddwn yn chwilio amdano. Beth yw llwyddiant? Beth yw cynnydd mewn hyder, er enghraifft? Mae'n bwysig hefyd ystyried sut byddai'r bobl sy'n cymryd rhan yn y gweithgaredd penodol yn diffinio hwn eu hunain gan fod ymchwil yn dangos bod cynnwys y bobl hynny wrth gynllunio gwaith monitro o'r dechrau yn cynyddu eu brwdfrydedd a'u cefnogaeth i'r broses.
- 4.76 Mae data meintiol yn gallu mesur newid sydd wedi digwydd yn sgil gweithgaredd neu brosiect, ond mae gwybodaeth ansoddol (ee cyfweiliadau neu grwpiau ffocws) yn gallu'ch helpu chi i ddeall sut ddigwyddodd hynny ac effaith y newid hwnnw.
- 4.77 Gall ystadegau rhoi tystiolaeth o newid ond gall astudiaethau achos o brofiad unigolion gynnig darlun mwy cyfoethog a phersonol o'r newid hwnnw a phersonoli llwyddiant y gweithgaredd wrth adrodd yn ôl.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

4.78 Dyma enghraifft o darged meintiol clir ar gyfer hybu a hyrwyddo'r Gymraeg drwy ddull newydd a rhagweithiol:

Maes blaenoriaeth	Hyrwyddo'r Gymraeg yn weledol yn gymunedol
Nod	Cynhyrchu gwefan a phecynnau croeso ar gyfer mewnfudwyr am hanes a diwylliant/ addysg ddwyieithog/ manteision y Gymraeg / cyfleoedd i'w dysgu a'i defnyddio
Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd Blwyddyn 1	Sicrhau bod gwybodaeth ar gael i gynorthwyo mewnfudwyr
Cyfrifoldeb	- Llywodraeth Cymru - Gwasanaethau Rheoleiddio a Datblygu Economaidd y Cyngor - Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
Dangosydd perfformiad	Nifer sy'n ymweld â'r wefan yn y flwyddyn gyntaf

4.79 Mae cyfleoedd i olrhain effaith gadarnhaol y prosiect hwn ymhellach drwy ystyried un neu fwy o'r canlynol:

Casglu Tystiolaeth Ansoddol

- Arolygon barn – SNAP; SurveyMonkey; Google ac yn y blaen.
- Grwpiau ffocws
- Cyfweiliadau
- Dyddiaduron fideo gan bobl sy'n rhedeg gweithgaredd/prosiect neu aelodau o'r cyhoedd sy'n cymryd rhan ynddynt. Dylid adolygu'r rhain ar y dechrau a'r diwedd i ddeall natur y newid.
- Straeon – casglu profiadau unigolion o'r prosiect/ gweithgaredd dros y cyfnod.
- Gwerthusiadau prosiect
- Cymharu grŵp sy'n cymryd rhan â 'grŵp rheoli' (beth fyddai'n digwydd pe na bai'r prosiect wedi'i roi ar waith).
- Dadansoddiadau ac ymchwil thematig

Mae modd gweithio ar y cyd â phartneriaid a rhanddeiliaid gyda gwaith ymchwil ansoddol, gan gasglu gwybodaeth sydd o ddiddordeb i bawb.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Ymchwil ansoddol – Cyngor Sir Gâr

Ar y cyd â'r Fforwm Iaith, mae Cyngor Sir Gâr wedi datblygu Holiadur Ymwybyddiaeth y Gymraeg i drigolion y sir. Nod yr holiadur hwn yw mesur statws y Gymraeg ac ymwybyddiaeth pobl o:

- fanteision y Gymraeg
- manteision addysg Gymraeg a sgiliau Cymraeg
- gwasanaethau Cymraeg yn y sir

Drwy gynnal yr holiadur, bydd y Cyngor yn datblygu cronfa o wybodaeth feintiol am drigolion yr ardal, ond bydd hefyd yn fodd o fesur argraffiadau a barn y trigolion ac effaith mentrau a phrosiectau penodol wrth holi am brofiadau amrywiol (ee. gweithgaredd partneriaid neu addysg yn y sir).

Y bwriad yw ei rannu drwy amrywiaeth o ddulliau a phartneriaid, gan adolygu'r ymateb ac adnabod bylchau ar ôl 3 mis er mwyn targedu cynulleidfaoedd ehangach, anoddach eu cyrraedd. Caiff yr holiadur ei gynnal eto erbyn diwedd cyfnod 5 mlynedd y Strategaeth i adnabod cynnydd ar draws y meysydd hyn.

Mae'r Cyngor hefyd wedi cynnal holiadur ar feddalwedd SNAP ar ddefnydd iaith gan staff y Cyngor ac ar draws y partneriaid sy'n dod o dan y Safonau, ynghyd â phartneriaid y Fforwm Sirol. Y gobaith yw y bydd modd defnyddio'r canlyniadau fel gwaelodlin ar gyfer mesuriadau'r dyfodol.

Bydd hyn unwaith eto yn ymarfer gaiff ei ailadrodd er mwyn olrhain cynnydd ac i sefydlu gwybodaeth ansoddol fydd yn gallu cyd-fynd â data mwy meintiol am y gweithlu.

Craffu a monitro

4.80 Pwysigrwydd sylfaenol prosesau craffu yw gyrru gwelliannau. Mae arfer da yn cynnwys:

- gwahanu rolau gweithredu ac adolygu (gan gynnwys sicrhau craffu allanol yn ogystal â mewnol)
- canolbwyntio ar wella
- agweddau ac adborth annibynnol ac adeiladol
- ymrwymo pobl i'r broses graffu yn gynnar er mwyn eu galluogi i ddylanwadu ar gryfhau'r strategaeth a'r cynlluniau gweithredu
- sicrhau bod prosesau craffu ac arolygu yn ategu ac atgyfnerthu'r gwaith ac nid yn drefn o roi tic mewn bocs yn unig

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

- 4.81 Mae ymchwil y Swyddfa Archwilio Cenedlaethol yn dangos bod sefydliadau sy'n gwahodd craffu allanol ac sy'n dysgu gwersi o'r herwydd ac yn gweithredu ar y gwersi hynny yn dangos lefelau uwch o lwyddiant. Yn ogystal â rhai o'r Fforymau Iaith sy'n gweithredu fel fforwm craffu allanol allweddol i strategaethau 5 mlynedd eu siroedd, mae rhai siroedd yn cael budd o strwythur Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus cefnogol i graffu ar y strategaeth.

Craffu allanol – Cyngor Sir Ceredigion

Dan fantell Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, mae grŵp Dyfodol Dwyieithog Ceredigion yn gweithredu fel un o 5 grŵp gweithredol a sefydlwyd i gyflawni gofynion Cynllun Integredig Ceredigion.

Mae grŵp Dyfodol Dwyieithog Ceredigion yn cynnwys aelodaeth o holl wasanaethau cyhoeddus Ceredigion, gan gynnwys y fenter iaith leol, Cered. Mae'r grŵp yn adolygu cyflawniad y Strategaeth ac yn adrodd yn uniongyrchol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion. Prif Weithredwr ac uwch swyddogion sefydliadau cyhoeddus yr ardal sy'n aelodau o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ac mae statws uchel i'r strategaeth o'r herwydd a sylw ar lefel uchel i ofynion gweithredu er mwyn cyflawni'r weledigaeth.

Mae Fforwm Iaith Sirol Ceredigion sy'n cynnwys

partneriaid hyrwyddo'r Gymraeg yn adrodd i grŵp Dyfodol Dwyieithog Ceredigion.

Mae Dyfodol Dwyieithog yn cwrdd unwaith y chwarter gan adrodd ar ei brif flaenoriaethau i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus drwy gyfrwng Cerdyn Adrodd blynyddol gan nodi cynnydd ar y 3 maes canlynol:

- Cefnogi teuluoedd (mwy o ddisgyblion yn derbyn eu haddysg yn Gymraeg)
- Economi a lle (cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned)
- Byw'n annibynnol (gwella mynediad at ddarpariaeth Gymraeg mewn gwasanaethau)

O dan y penawdau hyn, mae targedau yn seiliedig ar waelodlin â dangosyddion meintiol i olrhain cynnydd.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

4.82 Yn Atodiad 4, mae amserlen a strwythur craffu enghreifftiol i gyrff yn seiliedig ar arferion da ledled Cymru. Yr hyn y mae'r amserlen enghreifftiol yn ei amlygu yw'r angen i sicrhau seilwaith cadarn i gefnogi gweithrediad y strategaeth.

4.83 Yn gryno, drwy ddatblygu cyfuniad o fesuriadau amrywiol i gofnodi a mesur cynnydd a sicrhau trefn graffu gefnogol a chadarn:

- bydd cyrff yn gallu cydymffurfio'n llawn â Safon 145 a 146
- bydd cyrff a'u partneriaid yn gallu darparu sicrwydd am berfformiad y Strategaeth a lliniaru unrhyw risgiau a allai godi
- bydd llwyddiannau'r cyrff a'u partneriaid yn cael eu cydnabod a'u cryfhau at y dyfodol
- bydd cyrff yn gallu gosod perfformiad y strategaeth mewn cyd-destun cenedlaethol
- bydd cyrff yn gallu gosod perfformiad y strategaeth mewn cyd-destun polisi ehangach

4.84 Yn Atodiad 5, cynigir cyfres o gwestiynau enghreifftiol a dewisol a allai gael eu defnyddio neu eu haddasu i hwyluso hunanwerthusiad o'r strategaeth 5 mlynedd. Gallai hyn gynorthwyo cyrff i ddarparu sicrwydd wrth adrodd yn fewnol ynghylch pa mor gadarn yw eu strategaethau o ran cydymffurfiaeth, llywodraethiant a digonolrwydd. Nodir ffynonellau posibl o dystiolaeth y gellid cyfeirio atynt yn ogystal.

Hanfodion strategaethau 5 mlynedd

Cyd-destun polisi ehangach

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

- 4.85 Mae strategaethau 5 mlynedd yr awdurdodau lleol a'r parciau cenedlaethol yn cydnabod nad ydynt yn bodoli mewn gwagle, ac er eu bod wedi'u llunio i ymateb i heriau a chyfleoedd penodol iawn yn lleol, maent hefyd yn cydnabod eu bod yn bodoli mewn cyd-destun polisi ehangach. Mae deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol yn gofyn bod cyrff yn plethu'r gofynion hyn ac yn cydlynu ymdrechion fel bod cysondeb gweithredu gan sicrhau nad oes dyblygu gwaith.

Addysg a chynlluniau strategol y Gymraeg mewn addysg

“ Rhaid i'n gweithredoedd ni yn y tymor byr, ac yn ystod y pum mlynedd gyntaf yn benodol, adlewyrchu maint yr uchelgais

Aled Roberts, 'Adolygiad brys o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-20', Awst 2017

- 4.86 Er mwyn cyrraedd y nod o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod gan y sector addysg gyfraniad allweddol i'w wneud. Mae'r Llywodraeth wedi nodi dau brif ddull o gynyddu niferoedd – trosglwyddo iaith mewn teuluoedd, a datblygu a chynnal sgiliau drwy addysg a hyfforddiant o'r blynyddoedd cynnar hyd at ddarpariaeth yn y Gymraeg i oedolion.

“ Ein nod: creu system addysg statudol sy'n cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg hyderus.

- 4.87 Yn yr un modd, mae strategaethau 5 mlynedd y cyrff yn tanlinellu pwysigrwydd addysg i'w nod o gynnal neu gynyddu niferoedd siaradwyr Cymraeg yn eu hardaloedd:

“ Mae gan y Strategaeth [Addysg] rôl gwbl allweddol yn ymdrechion y Cyngor i gynyddu nifer ein trigolion sy'n caffael y Gymraeg, ac fe fydd yn hanfodol fod Strategaeth Hybu'r sir yn atgyfnerthu ac yn cefnogi'r Strategaeth Addysg.

Cyngor Sir Gâr

- 4.88 Mae'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg statudol, sef Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, yn gosod dyletswydd ar awdurdodau Cymru i baratoi Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Diben y cynlluniau hyn yw gwella'r ffordd mae awdurdodau yn cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg a gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg ac addysgu'r Gymraeg gan gynnwys i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). O dan ganllawiau presennol y Llywodraeth, mae'n ofynnol i'r cynlluniau gynnwys targedau ar gyfer twf dros amser. Mae gofyn i'r cynlluniau hefyd gynnwys data am niferoedd y disgyblion sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg.
- 4.89 Ar ôl cyhoeddi cynlluniau cyntaf yr awdurdodau lleol, gwelwyd nad oedd ynddynt y meddylfryd na'r uchelgais angenrheidiol i wireddu nod Strategaeth Cymraeg 2050. Roedd tuedd i ganolbwyntio ar y ddarpariaeth oedd eisoes yn ei lle ac i fodloni'r galw presennol.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

4.90 Yn Cymraeg 2050, nododd Llywodraeth Cymru:

“Byddwn yn symud o fesur y galw am addysg cyfrwng Cymraeg i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg yn systematig a rhagweithiol.

4.91 Gyda tharged uchelgeisiol i ddyblu nifer y siaradwyr Cymraeg, gwelir bod y pwyslais yn newid a'r llwybr polisi yn datblygu.

4.92 Mae hyn yn tanlinellu cyfeiriad pwysig i'r awdurdodau lleol ar gyfer y dyfodol, sy'n golygu na fydd datblygiadau addysg cyfrwng Cymraeg y Llywodraeth o hyn ymlaen yn dibynnu ar 'alw' am addysg Gymraeg ond yn hytrach disgwyliad y bydd cynnydd o ran sbarduno twf ar y naill law a chynyddu capasiti ar y llaw arall.

4.93 Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei [Chynllun Gweithredu 2017-21](#) ar gyfer y Gymraeg mewn addysg sy'n gosod y cyfeiriad ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'n egluro'r egwyddorion a'r camau a gaiff eu cymryd yn y blynyddoedd nesaf i gynllunio'r gweithlu, i gynllunio addysg a'r cwricwlwm, a sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles. Ymhlith y camau i gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg, mae bwriad yn y blynyddoedd nesaf i:

- Adolygu'r ddeddfwriaeth sy'n sail i'r rheoliadau a'r canllawiau ar gyfer cynlluniau strategol y Gymraeg mewn addysg.
- Adolygu'r broses o gynyddu cyfran yr addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion.
- Sicrhau bod cynigion Rhaglen Gyfalaf i sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yn cynnwys cyfleoedd i gynyddu nifer y lleoedd ysgol cyfrwng Cymraeg.

4.94 Yn anochel felly, mae'r datblygiadau mewn deddfwriaeth a pholisi yn genedlaethol dros y blynyddoedd nesaf yn golygu y bydd angen i'r awdurdodau lleol fod yn barod i ymateb i fframwaith a disgwyliadau mwy heriol ac mae goblygiadau i'r strategaethau 5 mlynedd o'r herwydd.

4.95 Mae mwyafrif helaeth y strategaethau 5 mlynedd yn cyfeirio at gynlluniau strategol y Gymraeg mewn addysg eu hawdurdodau, ond yn amrywio o ran y graddau maent yn cydblethu'r targedau hynny â gweledigaeth a nodau'r strategaeth 5 mlynedd.

4.96 Mae'r datblygiadau mewn deddfwriaeth a pholisi addysg Llywodraeth Cymru dros y blynyddoedd nesaf yn golygu bod cyfle i gryfhau ac adeiladu ar draws y ddwy strategaeth drwy ddechrau gyda gweledigaeth hirdymor ar gyfer y sir, er enghraifft:

“Sicrhau fod pob plentyn yn cael yr hawl i fod yn gwbl ddwyieithog erbyn cyrraedd 16 oed.

Cyngor Ynys Môn

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

4.97 Mae hefyd yn gyfle i gryfhau ac adeiladu ar y gweithgareddau ar lawr gwlad ar y cyd â phartneriaid i hyrwyddo, cefnogi ac ehangu cyfleoedd cymdeithasol, teuluol a gwaith. Mae'r Siarter Iaith, sy'n amlwg mewn sawl strategaeth 5 mlynedd, yn cynnig potensial i ddatblygu gweithgareddau newydd ac arloesol. Yn ôl Llywodraeth Cymru:

“Ni all addysg a hyfforddiant yn unig warantu y daw siaradwyr yn rhugl yn Gymraeg, nac ychwaith y byddant yn dewis defnyddio'r iaith yn eu bywyd bob dydd. Fodd bynnag...mae'n amlwg bod y system addysg yn dylanwadu ar botensial pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd.... mae'r Llywodraeth, gan weithio gyda chonsortia rhanbarthol, wedi adeiladu ar y Siarter Iaith Gymraeg, a ddatblygwyd gan Gyngor Gwynedd, a'r prosiect Cefnogi Arferion Iaith i ddarparu dull ysgol gyfan o ehangu defnydd plant a phobl ifanc o'r iaith.

4.98 Felly, er bod y strategaethau yn nifer yr achosion wedi datblygu'n weddol annibynnol ar ei gilydd, wrth adolygu cynnydd a chyrhaeddiad y strategaethau 5 mlynedd, mae'n gyfle i dalu sylw o'r newydd i'r ffordd y mae'r Strategaeth 5 Mlynedd a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn ategu'i gilydd o ran nodau a strwythurau cefnogol:

Cyfleoedd posibl:

- Ystyried trefniadau mewnol y corff o ran plethu ymdrechion yn effeithiol ar draws y strategaethau.
- Ystyried gweledigaeth fwy hirdymor ar gyfer addysg yn yr ardal a sut i gryfhau a datblygu cyfraniad gwahanol sectorau a phartneriaid.
- Ystyried datblygu gwaith hyrwyddo manteision dwyieithrwydd drwy ddulliau amrywiol ac arloesol i garfannau penodol, yn enwedig y rhai fu'n anodd eu cyrraedd hyd yma.
- Sicrhau bod partneriaethau cryf yn parhau i ddatblygu rhwng partneriaid hybu, y sector gofal plant, ysgolion cynradd ac uwchradd yr ardal, sefydliadau addysg bellach ac uwch, a'r parciau cenedlaethol, a sut gall yr awdurdod hwyluso hyn.
- Sicrhau gwaelodlin a data ystyrion i'r meysydd hyn gan ystyried effaith polisiâu a datblygiadau eraill (demograffeg, cynllunio, yr economi er enghraifft) ar y Gymraeg fel bod modd hyrwyddo a chynllunio cynnydd i gyd-fynd â'r weledigaeth hirdymor.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Dysgu Cymraeg

- 4.99 Elfen amlwg arall yn y strategaethau 5 mlynedd er mwyn denu a chreu siaradwyr newydd yw'r sector Cymraeg i Oedolion. [Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol](#) yw'r corff sy'n rhoi arweiniad strategol i ddarparwyr yn y maes ac sy'n datblygu'r maes ar lefel genedlaethol.
- 4.100 Fel nodwyd yn barod, nod y Ganolfan yw denu dysgwyr newydd at yr iaith a chynyddu'r niferoedd sy'n siarad ac yn mwynhau'r Gymraeg drwy
- Ddatblygu rhaglen arloesol o gyrsiau atyniadol ac addas i ddysgwyr gan wneud defnydd llawn o'r dechnoleg ddiweddaraf
 - Datblygu cynlluniau arloesol i sicrhau cyfleoedd a chyd-destunau i'r dysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg yn hyderus
 - Sefydlu rhwydwaith o ddarparwyr er mwyn cynnig gwasanaeth o ragoriaeth
 - Codi proffil y maes a chynyddu'r niferoedd sy'n dechrau cyrsiau ac yn parhau i ddysgu'r Gymraeg
 - Sefydlu a chynnal gweithdrefnau i gefnogi'r gwasanaeth

- 4.101 Mae pobl yn dysgu Cymraeg am wahanol resymau a thrwy ddulliau amrywiol. Mae rhai'n dysgu heb fynychu cwrs na hyfforddiant, er enghraifft drwy ddefnyddio adnoddau ar-lein. Felly mae'r cyfleoedd yn ehangu mwy a mwy, drwy ddarparwyr y Ganolfan, yn ogystal â darpariaeth fewnol rhai o'r cyrff eu hunain ar gyfer eu gweithluoedd.
- 4.102 Yn strategaeth y Llywodraeth ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg, mae nifer o gamau ar waith i ehangu cyfleoedd drwy gyfrwng dilyniant i addysg bellach ac uwch, rhaglenni dysgu seiliedig ar waith, hyrwyddo gwerth sgiliau dwyieithog yn y gweithle ynghyd â hyfforddiant yn y gweithle.
- 4.103 Mae strategaethau 5 mlynedd yr awdurdodau lleol a'r parciau hefyd yn rhoi lle canolog i gyfleoedd dysgu Cymraeg gan weithio gyda'r Mentrau, darparwyr dysgu Cymraeg a phartneriaid yn y sector addysg a busnes.
- 4.104 Un enghraifft o gynllunio lleol a chydblethu amcanion y corff ag amcanion strategaeth 5 mlynedd y cyngor sir yw'r cydweithio strategol sy'n digwydd ym Mro Morgannwg:

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Dysgu Cymraeg y Fro – cyfleoedd newydd

Mae Strategaeth 5 Mlynedd Cyngor Bro Morgannwg yn amlgu pwysigrwydd cyfraniad dysgu'r Gymraeg i gynyddu niferoedd siaradwyr Cymraeg, i drigolion yn lleol ac i weithlu'r Cyngor ei hun. Pennwyd sawl targed yn y strategaeth i ddatblygu'r ddarpariaeth hon gyda Dysgu Cymraeg y Fro yn cymryd rôl arweiniol a chynnig partneriaeth gref i'r Cyngor.

Cafwyd hwb i ddysgu'r Gymraeg yn yr ardal wrth i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sefydlu cytundeb newydd i ddarparu Cymraeg i Oedolion gyda Dysgu Cymraeg y Fro. Roedd hyn yn gyfle o'r newydd i ddatblygu'r ddarpariaeth yn fwy lleol, a mabwysiadu'r cyfrifoldeb uniongyrchol am y tro cyntaf wrth adnabod y galw, marchnata a thargedu'r ddarpariaeth i bobl y Fro yn benodol. Hefyd, datblygwyd perthynas agos rhwng rheolwr Dysgu Cymraeg y Fro ac adran Cydraddoldeb y Cyngor lle daethpwyd i gytundeb y byddai gweithwyr y Cyngor yn gallu cofrestru'n ddi-dâl, gan y byddai'r Cyngor yn talu hanner y ffioedd drostynt.

“Nod: “Cynyddu nifer yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg”

Amlinellwyd y bwriad i gynyddu gweithgarwch marchnata ac ymestyn nifer y cyrsiau sydd ar gael ar bob lefel. Pennwyd targed i gynyddu nifer y cofrestriadau o 20%. Gyda'r datblygiadau o'r newydd yn yr ardal a'r gefnogaeth gan y Cyngor, cynyddodd nifer y cofrestriadau gan 40% erbyn 2017.

“ Am y tro cyntaf roedd Dysgu Cymraeg y Fro yn gyfrifol am gyrsiau ar bob lefel gan gynnig cyrsiau Cymraeg i'r Teulu a chysiau dwys a dwys iawn, sy'n lledaenu'r cyfleoedd a gwneud y rhaglen yn fwy deniadol ac amrywiol, a chwrdd ag anghenion mwy o ddysgwyr Rheolwr Dysgu Cymraeg y Fro

“Nod: “Rhoi cyfleoedd i rieni a phlant i ddysgu Cymraeg gyda'i gilydd”

Trefnodd Dysgu Cymraeg y Fro gyfres o gyfarfodydd gyda phartneriaid lleol a mudiadau Cymraeg i wneud cais am arian drwy Grant Arloesi'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Pwrpas hyn oedd i ymestyn y cyfle i ddysgu Cymraeg i bobl anodd eu cyrraedd gan gynyddu cyfleoedd siarad Cymraeg i ragor o ddysgwyr ac oedolion eraill yr ardal. Bu'r prosiect yn llwyddiannus a'r bwriad yw cynnal cynllun peilot Clwb Gwaith Cartref i deuluoedd plant ysgolion Cymraeg yn y Fro. Bydd rhieni yn mynychu gyda'u plant i fwynhau gweithgareddau iaith a chwarae gan Dysgu Cymraeg y Fro a'r Urdd. Darperir gofal plant i'r rhai ieuengaf gan y Mudiad Meithrin, a chefnogaeth i'r oedolion gyda sgiliau sylfaenol llythrennedd a rhifedd ym mha bynnag iaith y dymunent, Cymraeg neu Saesneg, drwy gydweithrediad ag Addysg Oedolion a Chymunedol Bro Morgannwg.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

“Nod: “Darparu mwy o gyrsiau iaith yn y gweithle”

Mae'r strategaeth yn amlinellu'r bwriad i gynnig mwy o gyfleoedd ar wahanol lefelau hyfedredd i alluogi mwy o weithwyr i weithio'n ddwyieithog ac i sicrhau darpariaeth ar gyfer dechreuwyr a siaradwyr Cymraeg petrus. Y targed a bennwyd yw 'cynyddu'r ddarpariaeth yn y gweithle o 100%'.

Yn 2015-16 roedd trefniant mewn lle i weithwyr y Cyngor fynychu cyrsiau yn ddi-dâl gyda'r Cyngor yn ariannu hanner a Dysgu Cymraeg y Fro yn talu'r 50% arall. Gyda datblygiad y Strategaeth Hybu, cyhoeddodd Prif Weithredwr y Cyngor y gallai staff fynychu'r cyrsiau yn ystod eu hamser gwaith ac mae'r trefniant hwnnw yn parhau. Cytunodd y Cyngor hefyd i gynnwys staff ysgolion yn y trefniant hwn ac felly mae mwy o staff addysg yn mynychu cyrsiau erbyn hyn. Gwelwyd cynnydd o 21 aelod o staff yn 2015-16 i 80 aelod o staff yn 2017-18 ar draws y lefelau hyfedredd.

“ Mae Dysgu Cymraeg y Fro yn gefnogol o gamau'r Cyngor i ymestyn cyfleoedd i staff ymarfer a defnyddio eu Cymraeg. Croesewir staff y Cyngor ar ddigwyddiadau anffurfiol ac mae adran gyfathrebu'r Cyngor a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn rhannu newyddion Dysgu Cymraeg y Fro ac yn hyrwyddo ein dathliadau a'n cyrsiau.

Rheolwr, Dysgu Cymraeg y Fro

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Llesiant

- 4.105 Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn meddwl yn strategol ac yn cynllunio i'r dyfodol er mwyn gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru i'r cenedlaethau i ddod. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus feddwl mwy am yr hirdymor, a gweithio'n well gyda'i gilydd, gyda phobl a chymunedau, a gyda'u partneriaid i fabwysiadu dulliau gweithredu mwy cydgyssylltiedig a chynaliadwy.
- 4.106 Mae'r Ddeddf hefyd wedi sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru sy'n gyfrifol am wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd. Mae disgwyl iddynt weithredu mewn modd mwy holistig o ran cynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru gan gynnwys integreiddio nifer o ddeddfau, dyletswyddau a fframweithiau cynllunio perthnasol.
- 4.107 Mae'r ffordd y mae gofyn i gyrff weithredu gofynion y Ddeddf Llesiant yn gydnaws â'r modd y mae gofyn i gyrff gynllunio a gweithredu'r strategaethau 5 mlynedd:
- Mae angen ystyried yr hirdymor wrth gynllunio.
 - Mae angen ystyried effaith amcanion llesiant ar amcanion eraill a chyrff eraill a sut i'w hintegreiddio.

- Mae angen cynnwys rhanddeiliaid ac adlewyrchu anghenion eu hardal.
- Mae angen cydweithio ar draws adrannau a thu hwnt er mwyn gwireddu'r amcanion.
- Mae angen gweithredu i atal problemau rhag digwydd er mwyn helpu i gyflawni'r amcanion.

- 4.108 Mae nifer o gyrff o'r herwydd, wedi plethu eu gwaith o ran eu cynlluniau llesiant a'u strategaethau 5 mlynedd ac mae hyn wedi bod yn fodd iddynt gynnwys mwy o randdeiliaid a chodi proffil y strategaeth 5 mlynedd ar draws y sefydliad.



Mae cynaliadwyedd yn thema graidd i'r cynllun llesiant ac i'r strategaeth hybu, gyda phwyslais ar greu cymunedau hyfyw i'r dyfodol. Mae'r Gymraeg yn rhan gwbl greiddiol o hynny ac nid oes modd ei gwahanu oddi wrth y nodau.

Swyddog, Cyngor Ynys Môn

- 4.109 Nod y Llywodraeth yw bod y Gymraeg 'yn ystyriaeth ganolog o fewn polisi cyhoeddus'. Er bod un o'r nodau llesiant yn cyfeirio at y Gymraeg yn benodol: 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu', mae perthynas agos rhwng y Gymraeg a'r nodau llesiant eraill i gyd. Mae'r Comisiynydd wedi cyhoeddi dogfen gyngor yn benodol ar [Ystyried y Gymraeg mewn Cynlluniau Llesiant Lleol](#) (2018).

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

- 4.1.10 Gweler Atodiad 6 hefyd am ddarlun o'r modd y mae'r Gymraeg yn pontio meysydd strategol.
- 4.1.11 Fel nodwyd eisoes, er mwyn mesur cynnydd cyflawni'r nodau llesiant, mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi dangosyddion cenedlaethol. Unwaith eto, mae'r cyswllt â'r Strategaethau 5 Mlynedd yn amlwg, ac mae cyfleoedd i gynllunio ar draws adrannau ac amcanion i fonitro a mesur ac osgoi dyblygu gwaith.

Llesiant – cynllunio strategol

“ Mae egwyddorion y strategaeth hybu yn gwbl gydnaws â'r cynllun llesiant, mae'r Gymraeg yn rhan naturiol ac annatod o amcanion gwella llesiant.

Oherwydd natur ein gwaith fel parc cenedlaethol, un o'n prif bwrpasau yw gwarchod a gwella harddwch naturiol y parc. Felly, mae'r egwyddor o ddatblygu a chadwraeth gynaliadwy yn sail i'n holl waith i gyd. Roedd hi felly yn broses eithaf hawdd i ymgymryd ag anghenion y Ddeddf Llesiant, gan ein bod eisoes yn ceisio gweithredu yn y ffordd yma.

Roedd ein hamcanion gwelliant blaenorol yn gallu cael eu trosglwyddo i fod yn amcanion llesiant yn hawdd iawn, gydag ond ychydig o fan newidiadau.

Ein hail bwrpas statudol ni yw 'Hyrwyddo cyfle i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y Parc'. Mae'r iaith Gymraeg yn un o'r nodweddion hynny, ac felly rhan bwysig o'n gwaith yw dangos pwysigrwydd yr iaith yn yr ardal a dangos ei bod yn rhan bwysig o'n treftadaeth ddiwylliannol. Mae'n bwysig i ymwelwyr i'r ardal ddeall a gwerthfawrogi hyn fel nodwedd arbennig yma yn Eryri. Felly, mae ein holl staff fel staff yn ein Canolfannau Gwybodaeth, Wardeiniaid, Staff meysydd parcio ac ati i gyd yn gallu siarad Cymraeg, ac mae'r holl ddeunydd ysgrifenedig ar ein safleoedd o arwyddion i bamffledi a.y.b. yn ddwyieithog. Er bod y gynulleidfa yn aml yn ddi-Gymraeg, mae'n bwysig bod nhw'n gweld amlygrwydd y Gymraeg ym mhob man.

Swyddog, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd

- 4.112 Prif ddogfen arweiniol adrannau gwasanaethau cymdeithasol a byrddau iechyd o ran y Gymraeg yw [Mwy na Geiriau... Fframwaith Strategol Olynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol](#) ar gyfer 2016-2019.
- 4.113 Mae'n cynnwys amcanion strategol a chamau gweithredu i sicrhau darpariaeth Gymraeg sy'n rhoi'r claf wrth wraidd eu gwasanaethau.
- 4.114 Elfen greiddiol o'r fframwaith strategol yw'r 'cynnig rhagweithiol' ac mae'r Llywodraeth wedi datblygu [pecyn gwybodaeth](#) sy'n mynd i'r afael â'r modd y gall gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd weithredu hyn yn ymarferol. Yn ei hanfod, mae'r pecyn yn tanlinellu'r angen i wasanaethau ac aelodau staff gynnig gwasanaethau yn Gymraeg yn rhagweithiol, yn hytrach na disgwyl i aelodau o'r cyhoedd ofyn neu wneud ymdrech i ddewis gwasanaeth Cymraeg. Datblygwyd y cynnig rhagweithiol yn wreiddiol yn y maes iechyd yng Nghanaada, ac mae ymagwedd bartneriaethol yn hollbwysig i lwyddiant y 'cynnig rhagweithiol'.
- 4.115 Yn yr un modd ag y mae gweithredu 'cynnig rhagweithiol' yn ymestyn tu hwnt i adran gwasanaethau cymdeithasol neu fwrdd iechyd, ystyrir bod gweithredu Mwy na Geiriau a'r strategaethau 5 mlynedd yn gyfrifoldeb partneriaethau ehangach ac yn caniatáu cyfleoedd am fwy o gydlyn ymdrechion a phrosiectau ar y cyd.

Herio a Chefnogi – profiad Powys

Diben Grŵp Hyrwyddo, Herio a Chefnogi'r Gymraeg ym Mhowys yw helpu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'u partneriaid i gydymffurfio â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. Gwneir hyn er mwyn sicrhau gweithredu Fframwaith Strategol Mwy na Geiriau, ac i gael trosolwg o ofynion Safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r grŵp yn un aml-asiantaeth sy'n cael ei hwyluso gan Gyngor Sir Powys, sy'n cynnwys partneriaid yn cydweithio i gefnogi a herio wrth gyflawni'r gofynion iaith Gymraeg. Mae'r grŵp yn cynnig cymorth drwy her adeiladol, canllawiau a chynghor.

Gweithgaredd allweddol arall sydd gan y grŵp yw dathlu cyflawniadau a llwyddiannau, yn ogystal â rhannu arferion da wrth hybu defnydd o'r Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r grŵp yn sicrhau cysylltiadau ar draws yr awdurdod lleol i fforymau a ffrydiau gwaith iaith Gymraeg eraill, gan nodi bylchau allweddol mewn gwasanaethau a ddarperir i gefnogi unigolion, teuluoedd a chymunedau Cymraeg, ac i hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Derbyniodd y grŵp gydnabyddiaeth arbennig am Arweinyddiaeth yn y gwobrau 'Mwy na Geiriau' cenedlaethol yn 2017. Gellir gweld fideo yn egluro mwy am eu gwaith [yma](#).

Yr economi

- 4.116 Mae cryn dipyn o ymchwil a thrafod wedi bod ynghylch y cyswllt rhwng y Gymraeg a'r economi a'r modd y gall tueddiadau economaidd effeithio'n negyddol ar nifer siaradwyr Cymraeg ardal benodol. Mae trafodaeth hefyd wedi bod ynghylch potensial y Gymraeg i gyfrannu at dwf economi yn lleol.
- 4.117 Nod Llywodraeth Cymru yw "cefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg." Yn ei Rhaglen Waith ar gyfer 2017-2021, mae'r Llywodraeth yn amlinellu camau y bydd yn eu cymryd i ategu datblygiadau sy'n dod â manteision economaidd ac ieithyddol i ardaloedd gwahanol yng Nghymru.
- 4.118 O ran datblygu, gyda gofyn bod awdurdodau yn cyhoeddi cynlluniau datblygu lleol, a bod unrhyw gynlluniau datblygu bellach yn cynnwys asesiad o effeithiau tebygol y polisi ar y Gymraeg, mae cyswllt y strategaethau 5 mlynedd â'r cyd-destun ehangach hwn yn amlwg. Yn ôl y Llywodraeth:

“Gallai penderfyniadau a wneir ynghylch math, graddfa ac union leoliad datblygiadau oddi mewn i gymuned benodol ddylanwadu'n fawr ar ddefnydd o iaith, ac yn sgil hynny ar gynaliadwyedd a hyfywedd yr iaith. Mae hyn yn galw am gryfhau'r berthynas rhwng cynllunio ieithyddol a defnydd tir

- 4.119 Yn 2016, nododd y Comisiynydd yr angen i 'edrych ar y potensial o symud tuag at system gynllunio sy'n hybu'r Gymraeg yn hytrach na lliniaru effeithiau negyddol arni yn unig' ac mae perthnasedd y strategaethau 5 mlynedd yn pontio sawl maes. Mae hyn yn wir hefyd am gynlluniau datblygu gwledig a chynlluniau dinas ranbarth. Mae rhai strategaethau 5 mlynedd eisoes yn adlewyrchu'r cyswllt amlwg hwn gyda thargedau a chmau gweithredu ym maes:

- o datblygiadau tir ac economaidd
- o y farchnad lafur Gymraeg
- o y farchnad dai leol
- o polisiâu tai fforddiadwy, a
- o phecynnau croeso i fewnfudwyr.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Yr economi leol – Cyngor Ynys Môn

“Lle mae'r iaith Gymraeg yn rhan o wead cymdeithas yn y gymuned, mae ei thynged a'i lles yn anochel yn annatod wrth ffyniant ehangach y gymuned honno

Mae lle amlwg yn strategaeth 5 mlynedd Ynys Môn i'r modd y mae cynllunio, datblygu, tai a'r economi ynghlwm â ffyniant yr iaith.

Datblygiad o bwys i'r strategaeth yw'r Rhaglen Ynys Ynni. Sefydlwyd y rhaglen mewn ymateb i'r buddsoddiad sylweddol arfaethedig yn sgil adeiladu gorsaf niwclear newydd, adeiladu seilwaith newydd y Grid Cenedlaethol ynghyd â datblygiad pentref twristiaeth a chyfleusterau hamdden. Mae'r rhaglen yn bartneriaeth rhwng sefydliadau cyhoeddus a phreifat gan gynnwys Llywodraeth Cymru a datblygwyr mawr.

Gwelwyd bod angen agwedd gadarnhaol at alluogi datblygiadau economaidd cynaliadwy mewn cymunedau ar draws yr ynys. Y nod wrth gydbblethu'r strategaeth â'r rhaglen hon yw sicrhau cydbwysedd rhwng ffyniant economaidd cynaliadwy a chryfhau'r nifer o siaradwyr Cymraeg ymysg y cenedlaethau i ddod.

Drwy gyfrwng y Rhaglen Ynys Ynni, mae'r Cyngor Sir wedi ymrwymo i nifer o gamau gyda'r uchelgais o annog a chefnogi mwy o gymunedau a thrigolion ar yr ynys i ddefnyddio'r iaith fel rhan o'u bywydau bob dydd.

Mae'r Cyngor wedi nodi dangosyddion cadarnhaol yn sgil y datblygiadau arfaethedig, er enghraifft:

- darparu cyfleoedd i bobl ifanc leol aros ar yr ynys i fyw a gweithio
- darparu addysg, hyfforddiant a sgiliau gwell o ansawdd uchel i bobl leol gymryd mantais o'r cyfleoedd gwaith
- denu pobl sydd wedi gadael yr ynys i chwilio am waith yn rhywle arall yn ôl i Ynys Môn
- denu mwy o fuddsoddiadau i gwmnïau newydd i sicrhau cyfleoedd gwaith ychwanegol

Yn y cynllun gweithredu ar gyfer blwyddyn gyntaf y strategaeth 5 mlynedd, pennwyd nodau ac amcanion sy'n plethu'r elfennau ynghyd.

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

I gloi

- 4.120 Fel gwelir, nod y ddogfen gyngor hon yw cynnig golwg ymarferol ar weithredu strategaeth 5 mlynedd yn effeithiol. Mae wedi crynhoi agweddau ac enghreifftiau o arferion rhagweithiol a blaengar, ynghyd â syniadau i'w datblygu. Serch hynny, yn sgil y cyfweliadau a gynhaliwyd, gwyddom fod llawer iawn mwy o enghreifftiau da yn bodoli nad oedd gofod i'w cynnwys. Anogir cyrff i barhau i ddatblygu eu cysylltiadau â'i gilydd ac â phartneriaid, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, er mwyn rhannu a dathlu arferion da.
- 4.121 Rydym yn annog cyrff i ystyried cynnwys y ddogfen hon wrth adolygu cynnydd eu strategaethau gyda'r bwriad o gryfhau neu ddatblygu blaenoriaethau, arferion neu gamau gweithredu dros oes y strategaeth ac wrth baratoi strategaeth ddilynol ar ddiwedd y 5 mlynedd gyntaf.

Atodiadau

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Atodiad 1 Adnoddau a chyfeiriadau defnyddiol	74
Atodiad 2 Risgiau a rhagdybiaethau	81
Atodiad 3 Arferion da mewn cynlluniau gweithredu	82
Atodiad 4 Amserlen a seilwaith cefnogi enghreifftiol	83
Atodiad 5 Cwestiynau hunanwerthusiad posibl	84
Atodiad 6 Perthynas y Gymraeg â'r nodau llesiant	89
Ymwadiad	90

Atodiad 1

Adnoddau a chyfeiriadau defnyddiol

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Cyffredinol – y Gymraeg	
Darlun cynhwysfawr o sefyllfa'r Gymraeg	Darlun ystadegol o sefyllfa'r Gymraeg – Hywel Jones, Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2012) Sefyllfa'r Iaith Gymraeg 2012-2015: Adroddiad 5-mlynedd Comisiynydd y Gymraeg (2016)
Cyffredinol	
Strategaethau yn gyffredinol	The Magenta Book , Y Trysorlys, 2011 Strategy Survival Guide , Swyddfa'r Cabinet, 2004
Enghreifftiau o arferion da cyffredinol	Comisiynydd y Gymraeg Arfer Da Cymru Y gyfnewidfa arfer da
Gwerthuso a mesur perfformiad	Fframwaith Gwerthuso Strategaeth y Gymraeg , Llywodraeth Cymru, 2013 Adroddiad technegol Cymraeg 2050 , Llywodraeth Cymru 2017 (Amcanestyniad a thaflwybr nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd, 2011-2050) Y dangosyddion cenedlaethol , Llywodraeth Cymru, 2016 (Disgrifiad technegol a dolenni data) Fframwaith Gwerthuso Arfaethedig ar gyfer y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg , Llywodraeth Cymru, 2010

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Themâu				
Isod, mae rhai ffynonellau data ac ymchwil perthnasol yn ôl themâu y strategaethau 5 mlynedd.				
Maes	Thema	Pynciau	Ffynonellau data/ystadegau	Ffynonellau ymchwil posibl
Cynyddu Niferoedd	Nifer siaradwyr	Niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg Dadansoddiadau fesul oedran/yn ôl daearyddiaeth	Y Cyfrifiad Comisiynydd y Gymraeg StatsCymru Arolwg Cenedlaethol Cymru Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth Statiaith Arolwg Defnydd Iaith	Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Proffiliau iaith lleol a rhanbarthol gan y Mentrau Iaith a rhai Cyngorau Sir.
	Trosglwyddo iaith	Trosglwyddo iaith yn y cartref	Y Cyfrifiad Arolwg Defnydd Iaith StatsCymru Statiaith	Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd, Llywodraeth Cymru, 2017
	Demograffeg	Colli siaradwyr Genedigaethau a marwolaethau Mudo	Y Cyfrifiad StatsCymru Statiaith	Amcanestyniadau poblogaeth Tueddiadau'r dyfodol
	Sgiliau	Rhuglder Llythrennedd Deall	Y Cyfrifiad Arolwg Defnydd Iaith Arolwg Cenedlaethol Cymru Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth Statiaith	

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Maes	Thema	Pynciau	Ffynonellau data/ystadegau	Ffynonellau ymchwil posibl
	Addysg	Cyn-ysgol Cynradd Uwchradd Addysg bellach ac uwch Cymraeg i Oedolion	Y Cyfrifiad Data gan y Mudiad Meithrin StatsCymru Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol Statiaith Cynlluniau strategol y Gymraeg mewn addysg Ystadegau arholiadau CBAC Ystadegau Asesiadau'r Cwricwlwm Ystadegau Addysg Bellach ac Addysg Uwch Ystadegau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ystadegau gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol	Nodyn Briffio Darpariaeth Gofal Plant ac Addysg Blynyddoedd Cynnar Cyfrwng Cymraeg Comisiynydd y Gymraeg, 2017 Deunydd amrywiol: Gwefan Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru Sefyllfa'r Gymraeg mewn Rhaglenni Prentisiaethau yng Nghymru , Comisiynydd y Gymraeg, 2017 Canolfannau Cymraeg a Rhwydweithiau Cymdeithasol Oedolion sy'n Dysgu'r Gymraeg: Ymdrechion i Wrthdroi Shifft Ieithyddol mewn Cymunedau cymharol ddi-Gymraeg (2012) Codi golygon: adolygiad o Gymraeg i Oedolion Llywodraeth Cymru (2013)

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Maes	Thema	Pynciau	Ffynonellau data/ystadegau	Ffynonellau ymchwil posibl
Cynyddu Defnydd	Defnyddio'r Gymraeg	Amllder siarad, darllen ac ysgrifennu Hyder Ymddygiad Defnyddio'r Gymraeg yn gymunedol Defnyddio gwasanaethau Cymraeg	Arolwg Defnydd Iaith Arolwg Cenedlaethol Cymru Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth Statiaith	Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Ymchwilio i ddefnydd iaith siaradwyr Cymraeg yn eu bywyd bob dydd (Beaufort Research, 2013) Defnyddio'r Gymraeg yn y Gymuned. Astudiaeth Ymchwil, Prifysgol Bangor (2015) Pecyn Cymorth Defnyddio'r Gymraeg yn y Gymuned (Hodges; Prys, 2015) Hefyd ar gael yn Gymraeg: deall y defnydd a'r diffyg defnydd o wasanaethau Cymraeg (Cyngor ar Bopeth, 2015) Adroddiadau blynyddol y cyrff ar weithredu Safonau'r Gymraeg Adroddiadau Sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg Arolwg o'r defnydd a wneir o'r Gymraeg ar Twitter (Comisiynydd y Gymraeg 2014)

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Maes	Thema	Pynciau	Ffynonellau data/ystadegau	Ffynonellau ymchwil posibl
				Gwerth y Gymraeg i'r sector bwyd a diod yng Nghymru (Comisiynydd y Gymraeg, 2014) Y Gymraeg a Gwirfoddoli (Comisiynydd y Gymraeg, 2013) Gwaith lleol: ee astudiaethau amrywiol Mentrau Iaith. Adroddiadau blynyddol partneriaid y Fforwm Iaith Sirol. Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Feirniadol am yr Iaith Gymraeg, a'i Gyfraniad at Gynllunio Ieithyddol Cynhwysol yng Nghymru Steve Eaves, 2015 Behavioural Economics and Minority Language e-Services—The Case of Welsh. In: Durham M., Morris J. (eds) Sociolinguistics in Wales. Palgrave Macmillan, London

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Maes	Thema	Pynciau	Ffynonellau data/ystadegau	Ffynonellau ymchwil posibl
				Polisi Iaith Ymddygiadol? Ymchwil Osian Elias, Prifysgol Aberystwyth (i'w gyhoeddi 2018) Newid ymddygiad ieithyddol a thechnoleg, Ymchwil Gwenno Elin Griffith, Prifysgol Caerdydd (i'w gyhoeddi 2018) Rhagolygon cyffredinol: Tueddiadau'r dyfodol Astudiaethau cyffredinol ar natur cymunedau ee NatCen

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

	Gweithlu a datblygu economaidd	Sectorau amrywiol	Y Cyfrifiad Arolwg Defnydd Iaith Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth Statiaith Arolwg Sgiliau Cyflogwyr Comisiwn y DU Data gweithlu'r cyrff eu hunain Arolwg Gweithlu Addysg Cenedlaethol Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol Ystadegau Staff mewn AB ac AU	Anghenion o ran sgiliau Cymraeg mewn wyth sector, Llywodraeth Cymru 2014 Cymraeg Gwaith Gwaith y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd (Llywodraeth Cymru, 2014) Arolwg Tai a'r Iaith Gymraeg Gwynedd ac Ynys Môn (2014) Arolwg o Fusnesau Bach a Chanolig (Comisiynydd y Gymraeg, 2013)
--	--------------------------------	-------------------	--	--

Atodiad 2

Risgiau a rhagdybiaethau

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Mae llawer o risgiau yn deillio o ragdybiaethau a wneir, neu or-optimistiaeth wrth lunio'r strategaeth. Y meysydd sy'n gyffredin i brosiectau o bob math yw:

- Diffyg her ac atebolrwydd
- Methiant i lwyr ddeall heriau a chymhlethdod y maes
- Diwylliant y sefydliad yn tueddu i ganolbwyntio ar y byrdymor yn unig
- Gwendid yn y sail dystiolaeth ac ansawdd a phriodoldeb data
- Methiant i lwyr werthfawrogi rôl a gwerth rhanddeiliaid

O ran y Gymraeg yn benodol, mae [Fframwaith Gwerthuso Strategaeth y Gymraeg](#) Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2013, yn nodi nifer o ragdybiaethau sy'n amlygu'r angen i beidio â chymryd pethau'n ganiataol gan fod risgiau sylfaenol ynghlwm â hynny o ran llwyddiant y strategaethau.

Dylid osgoi rhagdybio:

- Bod nifer ddigonol o siaradwyr Cymraeg â'r lefel angenrheidiol o sgiliau er mwyn eu galluogi i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob sefyllfa
- Bod gan siaradwyr Cymraeg gymhelliant ac awydd i ddefnyddio'r Gymraeg
- Bod cyfleoedd digonol i siaradwyr Cymraeg gyfathrebu â'i gilydd yn Gymraeg
- Bod mesurau'r strategaeth hybu yn ddigon cadarn i wrthsefyll tueddiadau demograffig ac economaidd-

gymdeithasol ehangach (ee. mudo; cyflogaeth)

- Bod y Gymraeg yn gallu gwrthsefyll pwysau'r Saesneg fel iaith hollbresennol
- Bod graddfa a chyrhaeddiad yr ymyriadau i hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn ddigonol i sicrhau newid ystyrlon a pharhaus
- Bod gweithlu Cymraeg digonol ar gael
- Bod partneriaid yn gallu cydweithio'n strategol ac yn barod i wneud hynny
- Bod cymorth grant yn parhau ar gyfer sefydliadau partner i hyrwyddo'r Gymraeg

Drwy amlygu'r rhagdybiaethau a'r risgiau hyn mae modd ystyried sut mae'r strategaeth hybu yn gallu ateb nifer o'r heriau hyn.

Atodiad 3

Arferion da mewn cynlluniau gweithredu

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Mae llawer o gyrff wedi nodi'r bwriad i adolygu'r cynllun gweithredu o flwyddyn i flwyddyn neu'n rheolaidd yn ystod oes y strategaeth hybu 5 mlynedd. Mae'r adeg hon yn gyfle i sicrhau bod y cynllun gweithredu yn un cadarn sy'n hwyluso gwaith monitro a gwerthuso effeithiol. Dyma restr enghreifftiol o arferion da mewn cynlluniau gweithredu.

strwythur	- o addas at ddibenion y corff a'r rhanddeiliaid - o eglurder o ran cyfrifoldebau ac amserlen
allbwn	- o diffinio tasgau angenrheidiol gyda chatau penodol - o Targedau CAMPUS
cerrig milltir	- o diffinio cerrig milltir yn glir - o eglurder o ran allbwn a chanlyniadau yn erbyn y prif gerrig milltir
dilyniant	- o dangos y cyswllt rhwng tasgau/allbwn - o diffinio dilyniant unrhyw dasgau/allbwn sy'n gyd-ddibynol neu sy'n rhedeg o un cynllun i'r llall
cyfrifoldeb	- o egluro a chytuno cyfrifoldeb - o eglurder o ran cyfranogiad rhanddeiliaid
risgiau	- o mapio unrhyw risgiau - o sicrhau camau i leddfu unrhyw risgiau uchel/tebygol
monitro a gwerthuso	- o eglurder am y trefniadau monitro a'r mesuriadau/meini prawf - o fframwaith monitro a gwerthuso clir
cofnod	- o cadw cofnod o'r broses a chytundeb gan rhanddeiliaid - o cadw cofnod o ganlyniadau'r broses i fonitro cynnydd dilynol

Atodiad 4

Amserlen a seilwaith cefnogi enghreifftiol

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Mae'r atodiad hwn yn amlinellu cyfuniad o arferion da ar draws Cymru yn ôl pwyntiau allweddol yng nghalendr blynyddol ariannol y cyrff ar gyfer y Strategaethau 5 Mlynedd, a'r seilwaith sydd mewn lle i gefnogi gwaith craffu a monitro yn fewnol ac yn allanol. Enghreifftiol ydyw, nid oes disgwyliad i'w ddilyn cam-wrth-gam. Anogir y cyrff i addasu hyn er mwyn sicrhau trefniadau mewnol cadarn sy'n briodol i'w trefniadau penodol nhw.

Yn amlwg, mae trefniadau pob sir yn wahanol (ee. nid pob Fforwm sy'n cwrdd yn fisol, ac mae eu cylchoedd gorchwyl yn wahanol, yn ogystal â'r ffaith bod strwythurau craffu ac adrodd mewnol yn amrywio rhwng cyrff). Ond, mae'r isod yn crynhoi enghreifftiau o arferion da sy'n sicrhau sylw rheolaidd i gynnydd a hefyd yn sicrhau nad yw'r gwaith o gasglu gwybodaeth ar gyfer adroddiadau monitro a chynnydd blynyddol yn ormod o faich, ond yn digwydd yn gynyddol ac yn gyson yn ystod y flwyddyn monitro lawn.

Pryd	Pwy	Beth
Ebrill	- Swyddogion - Y Fforwm - Partneriaid allweddol	- Adolygiad misol o dargedau byrdymor - Swyddogion a phartneriaid i adrodd i'r Fforwm misol - Drafftio'r adroddiad monitro a chynnydd blynyddol ac ymgynghori arno
Mai	- Swyddogion - Y Fforwm - Partneriaid allweddol - Tîm Rheoli Corfforaethol - Pwyllgorau Craffu - Cabinet	- Adolygiad misol o dargedau byrdymor - Swyddogion a phartneriaid i adrodd i'r Fforwm misol - Yr adroddiad yn mynd gerbron y Tîm Rheoli Corfforaethol, Pwyllgorau Craffu a'r Cabinet (efallai dechrau Mehefin hefyd gan ddibynnu ar ddyddiadau'r cyfarfodydd)
Mehefin	- Swyddogion - Y Fforwm - Partneriaid allweddol - Penaethiaid adrannau	- Adolygiad chwarterol o dargedau'r Strategaeth gan y Fforwm ar gyfer y flwyddyn gyfredol - Cyhoeddi'r adroddiad monitro a chynnydd cymeradwy o ran y flwyddyn ariannol flaenorol

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Pryd	Pwy	Beth
Gorffennaf	- Swyddogion - Y Fforwm - Partneriaid allweddol	- Adolygiad misol o dargedau byrdymor - Swyddogion a phartneriaid i adrodd i'r Fforwm misol
Awst	- Swyddogion - Y Fforwm - Partneriaid allweddol	- Adolygiad misol o dargedau byrdymor - Swyddogion a phartneriaid i adrodd i'r Fforwm misol
Medi	- Swyddogion - Y Fforwm - Partneriaid allweddol - Penaethiaid adrannau - Tîm Rheoli Corfforaethol	- Adolygiad chwarterol o dargedau'r Strategaeth gan y Fforwm sy'n bwydo mewn i adroddiad mewnol yn unol â threfniadau'r sefydliad - Fel uchod hefyd ond i Fforymau nad yw'r strategaeth yn ganolbwynt i'w gwaith, cynnal cyfarfod penodol i drafod y strategaeth
Hydref	- Swyddogion - Y Fforwm - Partneriaid allweddol	- Adolygiad misol o dargedau byrdymor - Swyddogion a phartneriaid i adrodd i'r Fforwm misol
Tachwedd	- Swyddogion - Y Fforwm - Partneriaid allweddol	- Adolygiad misol o dargedau byrdymor - Swyddogion a phartneriaid i adrodd i'r Fforwm misol
Rhagfyr	- Swyddogion - Y Fforwm - Partneriaid allweddol - Penaethiaid adrannau - Tîm Rheoli Corfforaethol	- Adolygiad chwarterol o dargedau'r Strategaeth gan y Fforwm sy'n bwydo mewn i adroddiad mewnol yn unol â threfniadau'r sefydliad - Adolygu meysydd blaenoriaeth a thargedau ar gyfer blwyddyn nesaf y Strategaeth

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Pryd	Pwy	Beth
Ionawr	- Swyddogion - Y Fforwm - Partneriaid allweddol	- Adolygiad misol o dargedau byrdymor - Swyddogion a phartneriaid i adrodd i'r Fforwm misol - Archebu slot gyda'r Tîm Rheoli Corfforaethol, Pwyllgorau Craffu a'r Cabinet ar gyfer y cyfnod Ebrill-Mehefin ar gyfer yr adroddiad blynyddol ar y Safonau, i gynnwys atodiad sy'n amlinellu cynnydd y Strategaeth Hybu. - Rhybudd i bartneriaid mewnol ac allanol ar y data/ffigurau bydd disgwyl iddynt adrodd arnynt i'w cyflwyno i brosesau craffu mewnol y Cyngor mewn adroddiad blynyddol, fydd hefyd at sylw'r Comisiynydd a'r cyhoedd.
Chwefror	- Swyddogion - Y Fforwm - Partneriaid allweddol	- Adolygiad misol o dargedau byrdymor - Swyddogion a phartneriaid i adrodd i'r Fforwm misol - Trafod ac ymgynghori ar gynllun gweithredu blwyddyn nesaf y strategaeth i baratoi ar gyfer yr adolygiad blynyddol. - Cyfle i wahodd partneriaid ehangach mewn paratoad i ystyried targedau newydd/ailystyried targedau presennol.
Mawrth	- Swyddogion - Y Fforwm - Partneriaid allweddol - Penaethiaid adrannau - Tîm Rheoli Corfforaethol	- Adolygiad diwedd y flwyddyn o dargedau'r Strategaeth gan y Fforwm a dechrau paratoi'r adroddiad blynyddol. - Cynnwys atodiad ar gyflawniad y Strategaeth Hybu yn adroddiad blynyddol safonau'r Gymraeg. - Ar y cyd â'r Fforwm, cynnal cyfarfod â phartneriaid ehangach i hyrwyddo a chodi proffil y strategaeth ar gychwyn blwyddyn newydd.

Atodiad 5

Cwestiynau hunanwerthusiad posibl

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Enghreifftiol yw'r cwestiynau hyn. Eu bwriad yw cynnig awgrymiadau am gwestiynau a thystiolaeth bosibl i helpu cyrff i ddarparu sicrwydd ynghylch digonolrwydd y strategaeth. Byddai modd ychwanegu atynt a'u haddasu at ddibenion y cyrff unigol.

Cwestiynau posibl	Ffynonellau posibl
Nod y strategaeth Sut sefydlwyd yr angen am y strategaeth? Oes nod a phwrpas clir wedi'u diffinio? Ydy'r corff yn cydymffurfio â gofynion Safonau 145 a 146?	◦ Deddfwriaeth (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ◦ Hysbysiadau cydymffurfio ◦ Polisi (Cymraeg 2050) ◦ Cofnodion ac adroddiadau i'r Cabinet/Bwrdd ◦ Ymchwil ◦ Canlyniadau ymgynghori ◦ Y strategaeth ei hun
Cyd-destun ehangach A oes rhaglenni/strategaethau eraill yn cydbblethu â'r anghenion strategol hyn? A oes dealltwriaeth dda a rhyngddibyniaeth effeithiol rhwng partneriaid perthnasol? Sut mae'r rhyngddibyniaeth yn gweithio a sut caiff ei rheoli?	◦ Deddfwriaeth berthnasol ◦ Cynllun Llesiant ◦ Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ◦ Cynllun Datblygu Lleol ◦ Cofnodion ac adroddiadau ◦ Y strategaeth ei hun ◦ Strategaethau partneriaid ◦ Cynlluniau cyd-ariannu

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Cwestiynau posibl	Ffynonellau posibl
Rhanddeiliaid I ba raddau mae'r strategaeth yn ddibynol ar rhanddeiliaid allanol? Ydy'r rhanddeiliaid allweddol wedi cael eu hadnabod? Oes dealltwriaeth glir o'u cyfraniad, eu dylanwad a'u hanghenion? A oes strategaeth/cynllun rheoli rhanddeiliaid yn bodoli? A oes rhaglen gyfathrebu benodol wedi'i llunio i ategu'r gwaith?	- Ymchwil - Proffiliau iaith - Canlyniadau ymgynghori - Y strategaeth ei hun - Cofnodion ac adroddiadau (mewnol ac allanol, ee y Fforwm Iaith) - Cynllun rheoli rhanddeiliaid - Cynllun cyfathrebu â rhanddeiliaid - Strategaethau partneriaid - Cynlluniau cyd-ariannu
Costau ac adnoddau Pa ystyriaethau a wnaed o unrhyw oblygiadau cyllidebol ac adnoddau ac a ddyrannwyd sicrwydd ariannu/adnoddau digonol? A oes gan y strategaeth sail gadarn o ran staff, sgiliau, amser, cefnogaeth ac adnoddau?	- Ymchwil - Adroddiadau - Asesiadau - Cofnodion - Swydd ddisgrifiadau (ee swyddi newydd) - Ceisiadau grantiau - Cynlluniau cyd-ariannu
Risgiau Ydy'r risgiau i'r strategaeth wedi eu hadnabod a'u hystyried? A oes digon o hyblygrwydd yn y strategaeth i ddelio â phroblemau fel oedi/newid mewn sefyllfa ac ati?	- Ymchwil - Canlyniadau ymgynghori - Adroddiadau - Cofrestr risg - Y strategaeth ei hun - Asesiadau - Cofnodion
Arweinyddiaeth/diwylliant A oes perchnogaeth glir i'r strategaeth ac arweiniad clir i'w chyflawni? A oes gan y rheini sydd ynghlwm â gweithredu'r strategaeth yr awdurdod a'r dylanwad priodol? (h.y. a oes yna rywun all wneud penderfyniadau ac a all alw ar y gefnogaeth angenrheidiol?)	- Y strategaeth ei hun - Adroddiadau - Datganiadau i'r wasg/cylchlythyrau ac ati - Asesiadau - Cofnodion

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Possible questions	Possible sources
Targedau A bennwyd gwaelodlin er mwyn gosod targed cynnydd/cynnal realistig? Beth yw'r dystiolaeth o waelodlin i dargedau unigol? A yw'r amserlen wedi'i phennu drwy ddulliau priodol – ee. ymgynghori? Ydy camau gweithredu'r strategaeth yn glir, yn ddealladwy, yn ymarferol ac yn realistig? Sut caiff llwyddiant ei fesur? Oes modd diffinio newid mesuradwy yn sgil gweithgareddau penodol? Oes trefn ar waith i sefydlu pa wybodaeth sydd angen ei chasglu i fesur newid mewn perfformiad yn y dyfodol? A oes mesuriadau digonol i olrhain cynnydd a pherfformiad yn erbyn targedau? Beth yw'r drefn sydd ar waith i adolygu perfformiad yn erbyn y cynllun gweithredu i weld a yw'r strategaeth wedi llwyddo?	- Y strategaeth ei hun - Deddfwriaeth (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) - Polisi (Cymraeg 2050) - Ymchwil - Proffiliau iaith - Strategaethau partneriaid - Canlyniadau ymgynghori - Adroddiadau - Asesiadau - Cofnodion
Llywodraethiant A oes strwythurau (mewnol ac allanol) i sicrhau gorolwg a her gref/effeithiol? A oes rolau a chyfrifoldebau clir ynghlwm â'r broses graffu? Pa mor aml y bydd y broses graffu yn edrych ar adroddiadau cynnydd? A oes adrodd rheolaidd o ran: - Cynnydd yn erbyn cerrig milltir y cynllun gweithredu? - Unrhyw gamau a gymerwyd i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau?	- Y strategaeth ei hun - Adroddiadau - Cofnodion

Atodiad 6

Perthynas y Gymraeg â'r nodau llesiant

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Mae'r Gymraeg yn bwnc llorweddol sy'n pontio holl weithredoedd yr awdurdodau lleol, y parciau a'u partneriaid. Gweler [Nodyn Cyngor Comisiynydd y Gymraeg ar Ystyried y Gymraeg mewn Cynlluniau Llesiant Lleol](#) am awgrymiadau o ran y materion i'w hystyried wrth osod a chyflawni amcanion y cynlluniau a'r strategaethau.



Ymwadiad

Cyflwyniad
Y cyd-destun cenedlaethol
Hanfodion strategaethau 5 mlynedd
Gweledigaeth a pherchnogaeth
Cyfathrebu ac ymgynghori
Partneriaethau
Pennu targedau a mesur perfformiad
Cyd-destun polisi ehangach
Atodiad 1
Atodiad 2
Atodiad 3
Atodiad 4
Atodiad 5
Atodiad 6

Er mwyn hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, mae'r Comisiynydd wedi comisiynu gwaith ymchwil o dan Adran 4(2)(e) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Caiff canfyddiadau'r gwaith ymchwil hwnnw eu cyhoeddi yn y ddogfen gyngor hon, sy'n cynnig cefnogaeth i awdurdodau lleol a'r parciau cenedlaethol yng Nghymru wrth iddynt wireddu eu strategaethau 5 mlynedd i hybu'r Gymraeg yn unol â gofynion safonau 145 a 146 yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 (y safonau hybu).

Nid yw cynnwys y ddogfen yn gyfreithiol-rwym, ond mae'r Comisiynydd yn annog cyrff i ystyried yr arferion gorau a gyflwynir o fewn y ddogfen wrth iddynt fynd ati i lunio a gweithredu eu strategaethau unigol. Nid yw'r ddogfen gyngor hon yn god ymarfer statudol dan Fesur y Gymraeg ar gyfer cydymffurfio â'r safonau hybu, ac nid yw ychwaith yn cynnwys cyngor cyfreithiol y gall cyrff ddibynnu arno.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

comisiynyddygyymraeg.cymru
welshlanguagecommissioner.wales